



RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL:

24/2025

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/03/2025

Crynodeb o weithgareddau Cynllun Gweithredu Dementia y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2023 i 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Crynodeb o Weithgareddau Cynllun Gweithredu Dementia y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2023 i 2024

Awduron: Lock, K., Hendra H., Dawkins, A.

Hendra H., Dawkins, A., & Lock, K. (2025). Crynodeb o Weithgareddau Cynllun Gweithredu Dementia y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2023 i 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 24/2025
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/canfyddiadau-terfynol-y-gwerthusiad-or-cynllun-gweithredu-ar-gyfer-dementia-2018-i-2022>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Dr Jacqueline Campbell

Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 8348

E-bost: Research.HealthAndSocialServices@gov.wales

Cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	2
Geirfa	3
Methodoleg.....	8
Casgliadau	10
Crynodeb o'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau	10
Blaenoriaethau cyffredinol yn ôl ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	13
Lleihau risg a gohirio dechrau; a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.....	17
Adnabod, asesu a rhoi diagnosis	21
Byw cystal â phosibl am gyn hired â phosibl; a mwy o gefnogaeth	26
Cefnogaeth yn y gymuned	26
Gwasanaethau a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.....	31
Gwasanaethau a chefnogaeth yn yr ysbyty	40
Cefnogi'r broses o'i roi ar waith.....	43
Casgliadau	47
Cyfeiriadau	51

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Cyd-gynhyrchu gyda grwpiau blaenoriaeth poblogaeth yn ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.....	46
--	----

Geirfa

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)

Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n gwasanaethu ardaloedd fel Casnewydd, Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili.

Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Grŵp o weithwyr gofal Iechyd proffesiynol, gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd, sy'n darparu gofal hanfodol i gleifion mewn gwahanol leoliadau.

Timau Adnoddau Cymunedol (CRT)

Tîm amlddisgyblaethol sy'n darparu gwasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol integredig i gefnogi pobl yn eu cymunedau a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.

Therapi Ysgogi Gwybyddol (CST)

Rhaglen wedi'i strwythuro sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gynlluniwyd i wella swyddogaeth a lles gwybyddol pobl â dementia ysgafn i gymedrol.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

Fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i wella ymwybyddiaeth o ddementia, gwasanaethau gofal a chymorth i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalmwr.

Mapio Gofal Dementia (DCM)

Adnodd arsylwi a ddefnyddir i asesu ansawdd gofal dementia drwy ddeall profiadau unigolion a gwella cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Tîm Trin Dementia yn y Cartref (DHTT)

Gwasanaeth arbenigol sy'n darparu cefnogaeth ddwys i bobl â dementia a'u gofalmwr gartref, gan leihau'r angen i dderbyn pobl i'r ysbyty.

Adsefydlu'r Cof yn y Cartref

Rhaglen adsefydlu strwythuredig wedi'i chynllunio i helpu pobl sydd â dementia cam cynnar neu broblemau gyda'r cof i gadw eu hannibyniaeth mewn gweithgareddau bob dydd.

Y Gronfa Gofal Integredig (CGI)

Cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prosiectau Iechyd a gofal cymdeithasol cydweithredol sydd â'r nod o wella gwasanaethau i unigolion agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd â dementia.

Tîm Cyswllt Iechyd Meddwl

Tîm o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol sy'n darparu asesiadau, cymorth ac ymyriadau i gleifion mewn ysbytai, gan gynnwys y rheini sydd â dementia.

Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS)

Gwasanaeth arbenigol sy'n asesu, yn rhoi diagnosis ac yn darparu ymyriadau cynnar i unigolion sy'n cael problemau gyda'r cof, gan gynnwys dementia posibl.

Amhariad Gwybyddol Ysgafn (MCI)

Mae amhariad gwybyddol ysgafn yn ddiagnosis sy'n adlewyrchu cam canolradd o amhariad gwybyddol sydd yn aml, ond nid bob amser, yn gyfnod trosiannol o newidiadau gwybyddol mewn heneiddio arferol i'r rhai a geir fel arfer mewn dementia.

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Menter iechyd y cyhoedd sy'n annog staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i gymryd rhan mewn sgysiau byr i annog newidiadau i ffordd iach o fyw.

Gwasanaeth Mapio, Addysg a Gofalwyr (MECS)

Gwasanaeth a gynlluniwyd i wella gofal dementia drwy ddarparu addysg, cefnogaeth ac arweiniad i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mental Health Matters (MHM)

Elusen sy'n cynnig gwasanaethau cymorth, cyngor ac eiriolaeth iechyd meddwl i unigolion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

Llwybr Cymorth Cof

Dull strwythuredig o gefnogi unigolion â phroblemau cof, gan sicrhau mynediad prydlon at asesiadau, diagnosis ac ymyriadau priodol.

Offeryn Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maeth (MUST)

Adnodd sgrinio a ddefnyddir i asesu'r risg o ddiffyg maeth mewn unigolion, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd a chymunedol.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)

Elusen sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i ofalwyr di-dâl ledled Gogledd Ddwyrain Cymru, gan eu helpu i gael gfael ar wasanaethau hanfodol.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

Corff annibynnol sy'n darparu canllawiau a safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella gofal iechyd ac ansawdd gofal cymdeithasol yn y DU.

Castell-nedd Port Talbot

Bwrdeistref sirol yn Ne Cymru, sy'n gartref i amrywiol wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi cymunedau lleol.

Agweddau Positif at Ofal (PAC)

Fframwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i ddylunio i wella gofal dementia drwy ganolbwyntio ar empathi, cyfathrebu a chymorth unigol.

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)

Elusen sy'n cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol ym Mhowys, gan hwyluso prosesau cydweithio a datblygu gwasanaethau.

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gymorth integredig a thymor hir i bobl hŷn a grwpiau agored i niwed.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Byrddau cydweithredol sy'n dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector at ei gilydd i wella'r gwaith o gydlynu ac integreiddio gwasanaethau ar draws ardaloedd yng Nghymru.

Tîm o Amgylch yr Unigolyn (TAU)

Dull amlddisgyblaethol sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd ag anghenion gofal cymhleth, gan gynnwys dementia.

Gwerthfawrogi Safbwynt Unigol mewn Cyd-destun Cymdeithasol (VIPS)

Model gofal dementia sy'n pwysleisio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganolbwyntio ar brofiadau, anghenion ac urddas unigryw unigolion.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol Cymru, sy'n darparu ymateb brys, cludiant nad yw'n argyfwng, a chynghor clinigol i gleifion ledled y wlad.

Cyflwyniad a chefnidir

- 1.1 Lansiodd [Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 to 2022](#) ym mis Chwefror 2018. Roedd yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o ddementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia.
- 1.2 Amcanion y Cynllun Gweithredu Dementia yw:
- cynyddu gwybodaeth y cyhoedd am sut y gall pobl leihau eu risg neu ohirio dyfodiad dementia
 - cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i adnabod arwyddion dementia a cheisio diagnosis cynnar
 - gwella cyfraddau diagnosis amserol
 - helpu pobl sy'n byw gyda dementia i fyw mor iach â phosibl, mor annibynnol â phosibl, am gyn hired â phosibl.
- 1.3 Sefydlwyd saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2016 i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws ieuchyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Mae'r Cynllun Gweithredu Dementia yn cyfarwyddo'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu'r gwasanaethau dementia a'r llwybrau gofal presennol yn eu priod feysydd er mwyn canfod bylchau a datblygu gwasanaethau newydd sy'n cyd-fynd â'r gwasanaethau presennol ar gyfer pobl hŷn. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cysoni eu camau gweithredu â nodau'r Cynllun Gweithredu Dementia drwy ganolbwyntio ar leihau risg a gohirio dementia rhag dechrau; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia a gwella'r broses o adnabod a nodi symptomau; asesu a rhoi diagnosis cynnar; galluogi pobl i fyw mor hir â phosibl am gyn hired â phosibl drwy ragor o gymorth; a chefnogi'r broses o weithredu drwy ddysgu a datblygu'r gweithlu. Y penawdau hyn a ddefnyddir i fframio adran canfyddiadau'r adroddiad hwn.
- 1.4 Cefnogwyd y gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu Dementia ar waith drwy ddarparu cyllid penodol dan y Gronfa Gofal Integredig (ICF), ac yna ei olynydd, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael cyllid gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ddarparu'r gwasanaethau hyn; a rhaid iddynt ddarparu adroddiadau cryno chwarterol a diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r cynnydd cyffredinol yn erbyn mesurau canlyniadau.

- 1.5 Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Opinion Research Services (ORS) i werthuso'r Cynllun Gweithredu Dementia. Nod y gwerthusiad cyffredinol oedd asesu gweithrediad ac effaith y Cynllun Gweithredu Dementia yn erbyn ei nodau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres gynhwysfawr o adroddiadau gwerthuso sy'n [cwmpasu'r cyfnod gwerthuso pum mlynedd](#). Ei amcan yw cyfodod a chyflwyno'r prif weithgareddau a amlinellir yn adroddiadau cryno 'diwedd blwyddyn' Cronfa Integreiddio Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Llywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2023/24. Drwy strwythuro'r dadansoddiad o amgylch themâu'r Cynllun Gweithredu Dementia, nod yr adroddiad hwn yw nodi'r cyflawniadau a'r ymdrechion parhaus ym mhob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Dementia.

Methodoleg

- 2.1 I gefnogi'r gwaith o gasglu data sylfaenol a gynhaliwyd yn ystod y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Dementia, cynlluniwyd adolygiad aml-gam o'r data sydd ar gael i asesu cynnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Dementia. Fodd bynnag, mae newidiadau sylweddol mewn dulliau casglu data ers lansio'r Cynllun Gweithredu Dementia, ac mae effaith Covid-19 ar gasglu a dadansoddi data wedi ei gwneud yn anodd cyflwyno stori glir a chywir o wahanol ffynonellau data.
- 2.2 Felly, yn lle adolygiad data meintiol, mae'r adroddiadau monitro 'diwedd blwyddyn' rhanbarthol a luniwyd gan y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod hydref 2024 (ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24) wedi cael eu hadolygu a'u crynhoi i dynnu sylw at weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Dementia ledled Cymru. Er nad oedd hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl weithgarwch y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros oes y Cynllun Gweithredu Dementia, ac nad yw'r adroddiadau sy'n cael eu crynhoi yn caniatáu cymariaethau uniongyrchol rhwng rhanbarthau, mae'n cynnig gwybodaeth werthfawr am y gweithgareddau a'r blaenoriaethau ym mhob ardal.
- 2.3 Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2024 gan ddefnyddio dull dadansoddi thematig. Darllenwyd pob adroddiad a dosbarthwyd ei gynnwys ('mewn cod') gan ddefnyddio themâu safonol o fewn fframwaith dadansoddi, yn yr achos hwn:
- lleihau risg a gohirio dementia rhag dechrau
 - codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia a gwella'r broses o adnabod a sylwi ar symptomau
 - asesiad a diagnosis cynnar
 - galluogi pobl i fyw cystal â phosibl cyhyd ag y bo modd drwy fwy o gefnogaeth
 - cefnogi gweithredu drwy ddysgu a datblygu'r gweithlu.
- 2.4 Er bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno adroddiadau manwl, nid oedd pob un o'r themâu a nodwyd yn y bennod hon yn cael sylw ym mhob dogfen. Os nad oes gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adran mewn thema, y rheswm am hynny yw na ddarparwyd unrhyw wybodaeth am y thema hon yn ei adroddiad monitro.
- 2.5 Er bod synthesis adroddiadau diwedd blwyddyn 2023/24 y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn llawn data ansoddol, roedd y defnydd o ddata meintiol wedi'i

gyfyngu gan nifer o ffactorau. Er bod rhai o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi darparu data lefel uchel ynghylch rhai o'u prif brosiectau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen, yn aml nid oedd gwybodaeth am sut cafodd y data hwn ei gasglu; sut roedd yn cymharu â'r disgwyliadau (hy a oedd nifer y bobl a oedd yn defnyddio gwasanaeth penodol yn fwy neu'n llai na'r disgwyl), a, lle bo hynny'n berthnasol, sut roedd y canlyniadau'n cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ar ben hynny, lle mae canrannau o bobl sy'n ymateb i arolygon bodlonrwydd neu gyfweliadau wedi cael eu hadrodd, nid oes unrhyw arwydd o faint y samplau y mae'r canrannau hyn yn berthnasol iddynt.

- 2.6 Yng ngoleuni'r materion hyn, mae dull tebycach i naratif o ymdrin â'r synthesis wedi cael ei ddefnyddio, sy'n amlinellu gweithgarwch allweddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Dementia; a beth maen nhw'n ei ystyried yw prif gryfderau a gwendidau'r gweithgarwch hwn. Er bod hyn yn rhoi trosolwg cyfoethog o'r hyn sy'n cael ei gyflawni mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, byddem yn gofyn i ddarllenwyr gofio mai gwybodaeth 'hunan-gofnodedig' yw hi yn hytrach nag agwedd ar y gwerthusiad hwn sy'n cael ei chynnal a'i hadrodd yn annibynnol.

Casgliadau

- 3.1 Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y dulliau amrywiol ac arloesol a ddefnyddir gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Dementia. Mae'r canfyddiadau'n pwysleisio rolau hanfodol ymgysylltu â'r gymuned, ymyrraeth gynnar, a gofal cydlynol wrth wella ansawdd bywyd pobl â

Crynodeb o'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau

- **Caerdydd a'r Fro:** Tynnir sylw at flaenoriaethau'r ardal fel atal a chymunedau tosturiol, gofal a chymorth cymunedol di-dor (cyn ac ar ôl diagnosis), asesu, diagnosis ac adolygu prydlon, a gwaith sy'n canolbwyntio ar ysbytai. Mae'r blaenoriaethau hyn, a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid, yn cael eu cefnogi gan brosiectau galluogi sy'n canolbwyntio ar rymuso, mesur ac ymgysylltu â'r gweithlu sy'n arwain at gydgyhyrchu. Pwysleisir hefyd bwysigrwydd lleihau risg, cydnabod a nodi dementia yn amserol, a darparu gofal yn y gymuned drwy dimau amlddisgyblaethol; yn ogystal â phwysigrwydd dysgu o brofiadau go iawn a hyfforddi staff i wella gofal dementia.
- **Cwm Taf Morgannwg:** Mae blaenoriaethau a gweithgareddau'n canolbwyntio ar gydraddoldeb canlyniadau i bob dinesydd a chyd-gynhyrchu gyda phobl â dementia a gofalwyr, yn enwedig drwy ddatblygu Rhaglen Dementia gyda phrosiectau ym maes cymorth cymunedol, gwasanaethau arbenigol a Gwasanaethau Asesu'r Cof. Mae ffocws hefyd ar bwysigrwydd ymwybyddiaeth o ddementia, amgylcheddau cefnogol, a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; yn ogystal â diagnosis cynnar, ymyriadau therapiwtig, ac integreiddio technoleg glyfar. Nodir sefydlu 'Gweithwyr Cymorth Dementia a Chymorth Emosiynol' i hwyluso mynediad at weithgareddau cymdeithasol a chymorth, ac mae pwyslais ar ymdrechion cydweithredol i wella gwytnwch ymhlith unigolion â dementia a'u gofalwyr.

- **Gwent:** Mae blaenoriaethau rhaglen ddementia Gwent yn canolbwyntio ar y rhaglenni Asesu a Diagnosis a Byw'n Dda gyda Dementia. Nod y Rhaglen Asesu a Diagnosis yw cydnabod a rhoi diagnosis cynnar drwy fentrau fel cynyddu capasiti meddygon ymgynghorol, ehangu rolau Ymarferwyr Nyrsio Uwch, gwella cymorth awdioleg, prosesau adsefydlu'r cof yn y cartref, a chreu llwybr clinig Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI). Nod y Rhaglen Byw'n Dda gyda Dementia yw sefydlu systemau cymorth ar gyfer unigolion, teuluoedd a gofalwyr drwy brosiectau Cymorth Dementia yn y Gymuned a gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia. Ar ben hynny, nod y prosiect Gwaith Da - Dysgu am Ddementia yw codi ymwybyddiaeth a gwella gofal drwy ddarparu cyfleoedd dysgu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod diagnosis cynnar, cefnogaeth gyfannol, ac ymyriadau yn y gymuned yn hanfodol i wella ansawdd bywyd unigolion â dementia a'u gofalwyr.
- **Gogledd Cymru:** Amlinellir blaenoriaethau a gweithgareddau ar gyfer yr ardal sy'n pwysleisio model atal a gofal cymunedol i sicrhau bywydau iach o safon. Tynnir sylw at chwe chynllun sy'n benodol i ddementia er mwyn gwella llesiant drwy atebion yn y gymuned, canfod yn gynnar, ac ymyrryd. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar adnabod, asesu a diagnosis cynnar, ynghyd â chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Swyddogion Comisiynu ar gyfer pobl â Dementia yn cydweithio â'r rheini sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i lunio gwasanaethau'r dyfodol; ac ystyrir bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned a chydweithio amlddisgyblaethol yn hanfodol i gefnogi unigolion â dementia a'u gofalwyr.
- **Powys:** Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y blaenoriaethau a'r gweithgareddau yn yr ardal, gan gynnwys cefnogi'r Grŵp Llywio Dementia a phedwar grŵp gorchwyl i gyflawni Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, asesu'r cof, mentrau ysbyty sy'n deall dementia, a datblygu'r gweithlu. Mae proses fesur hefyd bellach wedi'i chynnwys yn y pedair ffrwd waith fel eitem reolaidd ar yr agenda. Nod prosiectau fel Gwasanaeth Cyfeillio Powys, Cefnogaeth Gartref Powys, a Gwasanaethau Cysylltwyr Cymunedol yw sicrhau'r llesiant gorau posibl, atal unigrwydd, a chefnogi oedolion hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r Tîm Triniaeth yn y Cartref ar gyfer pobl â Dementia yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i atal derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau amserol; ac mae penodi arweinwyr Tîm Asesu'r Cof wedi arwain at ddatblygu gwasanaethau i wella gofal dementia. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn rhoi pwyslais ar ymdrechion cydweithredol, ymgysylltu â'r gymuned, a gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra i wella gofal dementia ym Mhowys.

- **Gorllewin Morgannwg:** Nod Rhaglen Dementia Gorllewin Morgannwg yw darparu cefnogaeth gynhwysfawr i bobl â dementia a'u gofalwyr ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a gwirfoddol. O dan oruchwyliaeth y Bwrdd Dementia Rhanbarthol, mae'r Rhaglen yn cynnwys pum ffrwd waith: ymgysylltu â'r gymuned; asesu a diagnosis; gofal a chymorth cymunedol; lleoliadau ysbytai; a datblygu a mesur y gweithlu. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at amrywiol brosiectau a mentrau yn y gymuned, fel y Prosiect Cymorth Cyn Asesu'r Cof, Hybiau Dementia, a Gwasanaeth Gofal a Seibiant Dementia Marie Curie, sy'n ceisio darparu ymyrraeth gynnar, cymorth a gwella ansawdd bywyd pobl â dementia a'u gofalwyr.
- **Gorllewin Cymru:** Amlinellir blaenoriaethau a gweithgareddau allweddol yr ardal, yn ogystal ag ymdrechion i wella'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau yn y gymuned a chefnogaeth i boblogaethau agored i niwed. Mae'r prif weithgareddau'n cynnwys datblygu llwybrau gofal integredig, rhoi modelau gwasanaeth arloesol ar waith, a hyrwyddo cydweithio rhwng sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector. Rhoddir pwyslais ar yr elfennau hyn, sy'n ceisio sicrhau effeithiau cadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau, canlyniadau cleifion, a lles cyffredinol y gymuned.

3.2 Yn gyffredinol, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru yn cysoni eu camau gweithredu â nodau'r Cynllun Gweithredu Dementia drwy weithio ar y cyd a modelau gwasanaeth arloesol, a thrwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- lleihau risg a gohirio dementia rhag dechrau
- codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia a gwella'r broses o adnabod a sylwi ar symptomau
- asesiad a diagnosis cynnar
- galluogi pobl i fyw cystal â phosibl cyhyd ag y bo modd drwy fwy o gefnogaeth
- cefnogi gweithredu drwy ddysgu a datblygu'r gweithlu.

Blaenoriaethau cyffredinol yn ôl ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

3.3 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu nifer o ffrydiau gwaith dementia i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol canlynol fel rhan o'i [Strategaeth Dementia \(Partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig\)](#):

- Egwyddor 1: Atal cymunedol a chymunedau tosturiol (codi ymwybyddiaeth y gymuned o ffactorau risg dementia, cymunedau sy'n deall dementia sy'n gweithio i gefnogi dementia; a gwella gwerth cymdeithasol)
- Egwyddor 2: Gofal a chymorth cymunedol (gan sicrhau bod y lefel gywir o gymorth cofleidiol prydlon a di-dor ar gael gartref neu mor agos i adref â phosibl)
- Egwyddor 3: Asesu a diagnosis (gwella mynediad at asesiadau i leihau amseroedd aros; a darparu diagnosis amserol a chymorth ar unwaith os oes angen mor agos i adref â phosibl (e.e. drwy Wasanaethau Asesu'r Cof dan arweiniad meddyg teulu)
- Egwyddor 4: Gwaith sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty (cefnogi pobl mewn lleoliad ysbyty aciwt sy'n deall dementia a hwyluso eu rhyddhau'n gyflym ac yn ddiogel gyda'r lefel briodol o gymorth).

3.4 Cefnogir y blaenoriaethau allweddol hyn drwy dri phrosiect galluogi pellach:

- grymuso'r gweithlu (gwella gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd staff ar draws holl feysydd y system ofal)
- mesur (sicrhau bod canlyniadau'n cael eu mesur a'u hasesu i wella bywydau pobl)
- ymgysylltu â'r gymuned a chyd-gynhyrchu (sicrhau bod lleisiau'r rheini y mae dementia yn effeithio arnynt yn helpu i siapio'r rhaglen mewn modd wedi'i gynhyrchu ar y cyd).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

3.5 Yng Nghwm Taf Morgannwg, mae'r Grŵp Llywio Rhanbarthol ar Ddementia yn cael cymorth i gyflawni chwe ffrwd waith benodol, sy'n seiliedig ar y blaenoriaethau cyffredinol canlynol:

- canlyniad cyfartal i holl ddinasyddion y rhanbarth

- cyd-gynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddementia a gofalwyr.

3.6 Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cyffredinol hyn, mae Rhaglen Dementia¹ wedi cael ei datblygu gan y Grŵp Llywio sydd ar hyn o bryd yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau, wedi'u rhannu'n fras fel a ganlyn:

- prosiectau cymunedol
- gwasanaethau cymorth sy'n arbenigo ar ddementia
- prosiectau dementia sy'n cefnogi Gwasanaethau Cof
- cyd-gynhyrchu, rheoli prosiectau a datblygu llwybrau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

- 3.7 Mae blaenoriaethau Rhaglen Dementia Gwent yn canolbwyntio ar ddau brif faes: y Rhaglen Asesu a Diagnosis; a'r Rhaglen Byw'n Dda gyda Dementia.
- 3.8 Nod y Rhaglen Asesu a Diagnosis yw rhoi cydnabyddiaeth a diagnosis o ddementia yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys cryfhau Gwasanaethau Asesu'r Cof drwy gynyddu capasiti ymgynghorwyr ar gyfer diagnosis a rheoli cleifion cymhleth yn amserol; ehangu rôl ddiagnostig Uwch Ymarferwyr Nyrsio; gwella cymorth awdioleg; cynnig gwasanaeth adsefydlu'r cof yn y cartref; a sefydlu llwybr clinig Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynorthwyo'r broses gwneud diagnosis.
- 3.9 Mae'r Rhaglen Byw'n Dda gyda Dementia yn canolbwyntio ar sefydlu system gymorth ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'n cynnwys dwy brif ffrwd waith: Cymorth Dementia yn y Gymuned a Gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia.
- 3.10 Mae Cymorth Dementia yn y Gymuned yn cynnwys saith prosiect sy'n ceisio darparu cymorth unigol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion yn eu cartrefi neu eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cymorth yn ystod y dydd ac arosiadau seibiant dros nos; cymorth ar gyfer dementia cynnar; Mapio Gofal Dementia (DCM) ar draws lleoliadau amrywiol; hyfforddiant i ofalwr; sgrinio risg maethol; a gofal mwy cydgysylltiedig i gleifion mewnol sy'n byw gyda dementia.

¹ Partneriaeth strategol aml-asiantaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y trydydd sector a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

- 3.11 Nod Gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia yw helpu unigolion â dementia i adennill a chynnal annibyniaeth drwy asesu cyfannol, gosod nodau, ac ymyriadau personol sy'n canolbwyntio ar nodau.
- 3.12 Ar ben hynny, nod y prosiect dysgu dementia [Fframwaith Gwaith Da \(Cyngor Gofal Cymru\)](#) ar draws Gwent yw codi ymwybyddiaeth o ddementia a gwella gofal dementia drwy ehangu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r prosiect hwn yn annog cyd-gynhyrchu drwy gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalmwyr wrth ddylunio a gweithredu prosiectau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 3.13 Yng Ngogledd Cymru, y weledigaeth strategol gyffredinol yw model gofal atal a chydlynu cymunedol i sicrhau bod pobl yn gallu byw bywydau iach o ansawdd da. Dyhead y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw cynyddu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar; a datblygu canolfannau llesiant cymunedol i leihau'r cynnydd mewn angen critigol a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg iawn.
- 3.14 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu chwe chynllun penodol i ddementia sy'n cefnogi'r model gofal hwn, a'r canlyniadau a fwriedir yw bod llesiant pobl yn cael ei wella drwy gael gafael ar atebion cymunedol cydgysylltiedig; a bod atebion atal ac ymyrryd yn gynnar lleol yn cefnogi pobl i osgoi gwaethygu ac wynebu ymyriadau mewn argyfwng.
- 3.15 Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn galluogi dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned o ddarparu ymyriadau cynnar ataliol a chymunedol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, aelodau o'u teulu, a gofalmwyr. Mae'r cynlluniau hefyd yn dangos y rôl hanfodol y mae codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, gwaith amlddisgyblaethol a gwasanaethau cydgysylltiedig a di-dor yn ei chwarae o ran cefnogi canfod a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn gynnar.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

- 3.16 Ym Mhowys, mae'r Rheolwr Prosiect Dementia yn cefnogi'r Grŵp Llywio Dementia a'r pedwar grŵp gorchwyl canlynol i gyflwyno Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan:
- ymgysylltu â'r gymuned (digwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu i nodi sut beth yw gofal dementia da yn y gymuned)

- asesu'r cof, anableddau dysgu/nam gwybyddol ysgafn a rôl Cysylltydd Dementia (gan ganolbwyntio ar gynyddu cyfraddau diagnostig)
- Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia (ysbytai cymunedol sy'n ymgysylltu â phrosiectau i wella gofal)
- datblygu'r gweithlu a'r sefydliad (gan sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia yn cael ei gynnwys ym mhob maes gwasanaeth)

3.17 Pwrpas y Grŵp Llywio a'r grwpiau gorchwyl yw nodi prosiectau sy'n gallu gwella gofal dementia ym Mhowys drwy gyd-gynhyrchu â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a chydweithio ag asiantaethau partner.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

3.18 Gweledigaeth Rhaglen Dementia Gorllewin Morgannwg yw bod pobl â dementia a'u gofalwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chymorth pan, ble, a sut mae angen iddynt wneud hynny ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol. I gyflawni hyn, mae'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol yn goruchwyllo'r pum ffrwd waith gydgysylltiedig ganlynol:

- ymgysylltu â'r gymuned (codi ymwybyddiaeth y gymuned a chefnogi pobl â dementia; gwella gwerth cymdeithasol; a chreu cymunedau cefnogol a gwydn)
- asesu a diagnosis (gwella mynediad at asesiadau i leihau amseroedd aros a darparu diagnosis amserol a chymorth ar unwaith os oes angen)
- gofal a chymorth cymunedol (gan sicrhau bod y lefel gywir o gymorth cofleidiol di-dor ar gael gartref neu mor agos i adref â phosibl)
- lleoliadau ysbyty (gwella profiad pobl mewn ysbytai a hwyluso'r broses o'u rhyddhau yn ôl adref yn ddiogel ac yn amserol, gyda'r lefel briodol o gymorth ar gael iddynt hwy a'u gofalwyr)
- datblygu a mesur y gweithlu (gwella gwybodaeth a sgiliau ar draws y gweithlu cyflogedig a gwirfoddol, a sicrhau bod canlyniadau strategol yn cael eu cyflawni a'u bod yn gwella bywydau pobl ar draws y rhanbarth).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

3.19 Gweledigaeth Strategaeth Dementia Gorllewin Cymru yw cefnogi pobl i fyw'n dda gyda dementia am gyn hired â phosibl, gan roi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr wrth galon y gwasanaethau a ddarperir; a rhoi strategaethau ar waith i wella diagnosis cynnar, cymorth a chydlyniad. Dyma bum prif faes y Strategaeth:

- llesiant, lleihau risg, gohirio dechrau, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth (drwy weithredu hyfforddiant Fframwaith Gwaith Da; a chyfathrebu, codi ymwybyddiaeth, a galluogi mynediad at wybodaeth/gwasanaethau amserol)
- cydnabod, nodi cefnogaeth a hyfforddiant (mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi pobl; cynnig cymorth beth bynnag fo'r diagnosis; a strwythurau galluogi)
- asesu a diagnosis (cael y llwybr diagnosis a'r wybodaeth yn iawn y tro cyntaf; a chefnogi'r rhai ag anabledd dysgu)
- byw'n dda gyda dementia (galluogi pobl i gael adolygiadau iechyd a mynd i apwyntiadau; ac ymateb ar draws y system i ddarparu cymorth)
- mwy o gymorth pan fydd ei angen ar bobl (gofal cyson yn yr ysbyty; manteisio i'r eithaf ar bŵer gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol; a chael gafael ar gymorth pan fo angen).

Lleihau risg a gohirio dechrau; a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae pobl yn deall y camau y gallant eu cymryd i leihau eu risg, neu ohirio dyfodiad rhai mathau o ddementia; ac mae pobl yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda dementia ac yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i'w cefnogi

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

3.20 Mae prosiect 'Atal Cymunedol a Chymunedau Tosturiol' Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn lleol er mwyn gallu osgoi argyfwng drwy sicrhau'r canlynol:

- datblygu rhanbarth sy'n ystyriol o ddementia ac sy'n deall, yn cydnabod ac yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn y gymuned drwy ddau gydlynnydd (un ar gyfer Caerdydd ac un ar gyfer Bro Morgannwg) sy'n cefnogi busnesau a chymunedau i ddod yn ymwybodol o ddementia. Mae hyn yn cynnwys cymunedau gwledig, cymunedau ethnig leiafrifol, a chymunedau eraill sydd wedi cael eu tangynrychioli hyd yma yn Rhaglen Dementia'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- cynnig cymorth ac arweiniad i bobl ar ffordd iach o fyw gan ddefnyddio strategaethau ataliol i leihau'r risg o ddementia

- adeiladu ar waith ymgysylltu â'r gymuned drwy ddigwyddiadau ymgysylltu i lywio cydlyniant cymunedol ac [Ymgyrch Gwranddo \(Gwelliant Cymru\)](#).

3.21 Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i dargedu cymunedau penodol; ac i gyflogi dau Gysylltydd Dementia arall i gefnogi cysylltiadau rhwng dinasyddion a phartneriaid a helpu i siapio sut mae pobl leol yn byw gyda dementia. Yn y cyfamser, mae'r prosiect yn parhau i elwa ar bobl sydd â phrofiad uniongyrchol drwy'r [Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia \(GIG Cymru\)](#) ac ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol y flwyddyn.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

3.22 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth o ddementia a darparu cyngor, cyfeirio, cymorth a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â dementia mewn cymunedau. Yn benodol, mae'r rhanbarth wedi gweld y canlynol:

- sesiynau codi ymwybyddiaeth a meithrin sgiliau yn y gymuned
- cynnydd yn nifer yr amgylcheddau sy'n cefnogi pobl â dementia, mannau diogel i ofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia, a Chyfeillion Dementia a Llysgenhadon Dementia mewn cymunedau
- amrywiaeth o ganolfannau (gan gynnwys canolfannau dros dro) gyda gweithgareddau, cymorth a thechnoleg gysylltiedig
- cyfleoedd hamdden a diwylliannol i ofalwyr
- cymorth cyfathrebu arbenigol i alluogi pobl i fod yn rhan o'u cymunedau
- allgymorth hyblyg
- cefnogaeth a buddsoddiad mewn mentrau cymdeithasol a thrydydd sector cynaliadwy.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

3.23 Yng Ngwent, mae'r Rhaglen Asesu a Diagnosis yn rhoi diagnosis a chydabyddiaeth gynnar o ddementia, sy'n hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gfael ar gymorth a thriniaeth gyfannol yn gynnar yn eu taith ddementia. Yn gyffredinol, dyma'r canlyniadau y bwriedir i'r rhaglen eu cyflawni:

- bod unigolion yn deall yn well y camau y gallant eu cymryd i leihau eu risg, neu i ohirio dementia rhag dechrau

- mae'r boblogaeth ehangach yn deall yr heriau a wynebwr gan bobl sy'n byw gyda dementia ac yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i'w cefnogi
- mae pobl yn ymwybodol o arwyddion cynnar dementia; pwysigrwydd diagnosis amserol; ac yn gwybod ble i fynd i gael help.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 3.24 Yng Ngogledd Cymru, mae Swyddogion Comisiynu a Gweithredu'r Strategaeth Dementia yn codi ymwybyddiaeth o ddementia, yn cynnig hyfforddiant dementia, ac yn nodi gwasanaethau cymorth cymunedol lleol. Mae swyddogion wedi gweithio dros y chwe mis diwethaf i gefnogi twf sylweddol mewn gwasanaethau dementia, gan gynnwys drwy ehangu grwpiau cymorth dementia a chymorth seibiant; a sicrhau bod pawb – yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r cyhoedd – yn gwybod beth sydd ar gael.
- 3.25 Mae'r cynllun statws deall dementia hefyd yn codi ymwybyddiaeth o ddementia mewn cymunedau ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau/gweithgareddau hygyrch priodol ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Ar ben hynny, mae cynghorau gwirfoddol lleol wedi cydweithio'n agos â phobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, aelodau o'u teulu, plant ysgol, y cyhoedd, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gynyddu ymwybyddiaeth o ddementia a grymuso pobl i gymryd camau i helpu pobl sy'n byw gyda dementia yn eu cymunedau.
- 3.26 Mae'r gweithredu wedi cynnwys mapio gwasanaethau, digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, cyfleoedd dysgu ar y cyd, a hyfforddiant dementia; yn ogystal â rhwydweithiau dementia i hwyluso dull gweithredu cymunedol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

- 3.27 Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch ymwybyddiaeth gymunedol ehangach ym Mhowys:
- digwyddiad gwybodaeth gymunedol i'r trydydd sector ym Machynlleth wedi'i drefnu gan Gysylltwyr Cymunedol Lleol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
 - Cysylltwyr Cymunedol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a rhwydweithiau cymunedol uchel eu proffil i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy sefydliadau trydydd sector a Infoengine, y cyfeiriadur trydydd sector ar-lein

- Sesiynau therapi ysgogi'r ymennydd (CST), a ddarperir gan Wasanaeth Asesu'r Cof yn y Drenewydd, Llanidloes ac Ystradgynlais i gefnogi agendâu atal a lleihau risg².

² Nid oes gan dimau Canol/De Cymru unrhyw gapasiti i ryddhau staff ar gyfer sesiynau tebyg ar hyn o bryd, ond mae gwaith parhaus ar ddatblygu polisi yn edrych ar sut y gellir gwneud hyn.

Adnabod, asesu a rhoi diagnosis

Mae pobl yn ymwybodol o arwyddion cynnar dementia, pwysigrwydd diagnosis amserol, a gwybod ble i fynd i gael cymorth; ac mae mwy o bobl yn cael diagnosis cynharach, sy'n eu galluogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chael gafael ar gymorth a gofal cynnar os oes angen.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

- 3.28 Nod y Gwasanaeth Cyngor ar y Cof yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yw darparu gwasanaethau yn y gymuned i sicrhau bod pobl yn cael diagnosis amserol o ddementia yn nes at eu cartref drwy'r Gwasanaeth Cyngor ar y Cof dan arweiniad meddygon teulu; a galluogi cymorth ar gyfer llwyth achosion ac adolygiadau mwy cymhleth drwy ofal Gwasanaeth Cyngor ar y Cof mewn ysbytai. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu Gwasanaeth Cyngor ar y Cof sy'n seiliedig ar fyrdau iechyd â Gwasanaeth Cyngor ar y Cof Gofal Sylfaenol lle mae meddygon teulu'n cael eu cefnogi a'u harwain gan ymgynghorydd arbenigol Gwasanaeth Cyngor ar y Cof i barhau i feithrin eu hyder i gynnal asesiadau cymhleth.
- 3.29 Mae gweithgor o'r enw Gofal a Chymorth Cymunedol hefyd wedi cael ei sefydlu i wella dulliau cyfathrebu, cydweithio, cydlynu gofal a gwasanaethau cymorth; a rhannu arferion da i gefnogi llwybrau dementia di-dor. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cynnwys timau gofal a chymorth clinigol ac anghlinigol yn y gymuned ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

- 3.30 Yng Nghwm Taf Morgannwg, mae newid i'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu, a nifer o raglenni penodol, wedi ceisio cefnogi gwelliannau mewn Gwasanaeth Cyngor ar y Cof. Datblygwyd y rhain mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol ac maent yn cynnwys y canlynol:
- ailgynllunio timau Gwasanaeth Asesu'r Cof i wella'r daith ddiagnostig i unigolion
 - gwell gwasanaethau ar gyfer asesu a therapi
 - creu cynlluniau peilot llwybr awdioleg (mewn partneriaeth â Seicoleg) i gefnogi trin nam ar y clyw fel y ffactor risg mae modd ei haddasu mwyaf llwyddiannus o ran dirywiad unigolion â dementia
 - datblygu llwybrau radioleg i sicrhau nad yw cleifion â dementia yn cael eu tynnu oddi ar restrau aros am beidio â dod oherwydd dirywiad gwybyddol

- ad-drefnu'r Tîm Ymyrraeth Dementia Arbenigol i gynnwys Mapio Gofal Dementia
- uwch-sgilio staff i gefnogi'r broses ddiagnosis a mapio
- hyrwyddo prosiectau cymunedol rhanbarthol integredig yn y trydydd sector i sicrhau canlyniad cyfartal ar draws y rhanbarth.

3.31 Mae Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi gweld naw prosiect gwella yn cael eu creu i gefnogi cynnydd yn erbyn safonau Gwasanaeth Asesu'r Cof, sy'n cynnwys:

- strategaethau ymdopi cynnar a mewnbynnu ymyriadau cyn cael diagnosis
- diagnosis cynnar mewn amgylchedd sy'n addas i anghenion yr unigolyn
- ymweliadau cartref i helpu gyda'r Gwasanaeth Asesu'r Cof
- ymyriadau therapiwtig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng nghartref yr unigolyn ei hun
- defnyddio technoleg glyfar i gefnogi unigolion yn eu cartrefi eu hunain
- cefnogi cysylltiadau o fewn cymunedau unigolion, hyrwyddo annibyniaeth a galluogi pobl i gael gafael ar adnoddau cymunedol lleol
- cefnogi unigolion i gysylltu â'u cymunedau i gael dealltwriaeth dda o adnoddau a rhwydweithiau; a galluogi cyfeirio at y trydydd sector a chanolfannau cymunedol
- darpariaeth Amhariad Gwybyddol Ysgafn arbenigol mewn cymunedau i gefnogi grŵp na fyddai, yn hanesyddol, wedi cael cymorth y tu hwnt i fonitro dirywiad
- cefnogaeth/grwpiau ôl-ddiagnostig.

3.32 Mae asesiadau gwybyddol a diagnosis mewn cartrefi gofal hefyd wedi bod yn flaenoriaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Cyn hyn, roedd hi'n anodd penderfynu at ba dîm y dylid cyfeirio achosion o gartrefi gofal gan nad oedd llwybrau wedi'u sefydlu. O'r herwydd, roedd cartrefi gofal fel arfer yn cael eu defnyddio i anfon e-bost at y Tîm Cyswllt Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn yn uniongyrchol gydag unrhyw bryderon. Gan weithio gydag arweinydd Tîm y Cof a'r Tîm Cyswllt Iechyd Meddwl, cytunwyd y dylai trigolion cartrefi gofal sydd â phryderon gwybyddol gael eu rhoi dan ofal Tîm y Cof, sydd bellach yn cwblhau asesiadau/adolygiadau ar gyfer yr unigolion hyn. Os ydynt yn gymhleth, bydd y Tîm Cyswllt Iechyd Meddwl yn eu derbyn i atal derbyniad iechyd meddwl. Trafodir yr asesiadau/adolygiadau mewn cyfarfod tîm aml-ddisgyblaethol unwaith yr wythnos.

- 3.33 Nod y dull hwn yw sicrhau bod unigolion yn cael eu hasesu ac yn cael diagnosis mewn cartrefi gofal (heb orfod mynd i glinigau) a bod ganddynt yr un mynediad at wasanaethau â phobl eraill sy'n byw gyda dementia yn y gymuned ac yn yr ysbyty.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

- 3.34 Yng Ngwent, mae'r Rhaglen Asesu a Diagnosis yn rhoi diagnosis a chydabyddiaeth gynnar o ddementia, sy'n hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gafael ar gymorth a thriniaeth gyfannol yn gynnar yn eu taith ddementia. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull cydweithredol ar draws gwahanol arbenigeddau gofal iechyd, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar gryfhau Gwasanaeth Asesu'r Cof drwy ddarparu'r canlynol:
- capasiti ychwanegol ar gyfer diagnosis a rheoli cleifion cymhleth mewn Gwasanaeth Asesu'r Cof yn amserol drwy recriwtio Seiciatrydd Henaint Ymgynghorol ychwanegol
 - rôl ddiagnostig estynedig ar gyfer Uwch Ymarferwyr Nyrsio, yn enwedig ar gyfer dementia cynnar
 - gwell cymorth awdioleg drwy integreiddio Gwasanaethau Awdioleg yn y broses o roi diagnosis dementia. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gallu cynnig dyfeisiau mwyhau a chymorth awdioleg parhaus lle bo angen i wella dulliau cyfathrebu, ymgysylltu cymdeithasol, a chaniatáu i bobl fyw'n ddiogel ac yn annibynnol am fwy o amser
 - y rhaglen Adsefydlu'r Cof yn y Cartref, sy'n darparu therapi galwedigaethol i bobl o dan Wasanaeth Asesu'r Cof, gan dargedu defnyddwyr gwasanaeth yn fwriadol cyn gynted â phosibl
 - llwybr clinig Amhariad Gwybyddol Ysgafn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynorthwyo'r broses o roi diagnosis dementia, gyda'r nod o ymyrryd yn gynharach a rhoi diagnosis mwy dibynadwy o is-fathau o ddementia.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 3.35 Yng Ngogledd Cymru, mae'r cynllun Nyrsys Datblygu Ymarfer yn cefnogi rôl sy'n gweithio i wella'r broses o adnabod dementia yn gynnar yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal; ac yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i gartrefi gofal. Mae'r rôl wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o ddementia; cynghori ar welliannau i gartrefi ac amgylcheddau ffisegol mewn cartrefi gofal; a chysylltu â meddygon teulu i wella'r broses o ganfod a rhoi diagnosis cynnar.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

3.36 Mae Gwasanaeth Asesu'r Cof Powys yn ceisio cryfhau ac ad-drefnu gwasanaethau er mwyn:

- bodloni Llwybr Safonau a Chynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan yn well
- sicrhau agwedd gyson ar draws Powys tuag at ddatblygu gwasanaethau
- clirio'r ôl-groniad o asesiadau a achoswyd gan bandemig Covid-19
- symleiddio'r gwasanaeth i leihau amseroedd aros a gwella gofal.

3.37 Mae buddsoddiad wedi'i wneud mewn arweinyddiaeth a datblygu gwasanaethau. Ar ben hynny, mae cyfraniad Gwasanaeth Asesu'r Cof mewn archwiliadau addysgol wedi galluogi myfyrwyr nyrsio i gael lleoliadau ym Mhowys i wella problemau recriwtio posibl; ac mae mynediad staff at y cwrs Rhoi Diagnosis Dementia wedi ceisio gwella amseroedd aros a darparu clinigau/gwasanaethau dan arweiniad ymarferwyr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

3.38 Mae darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn yn flaenoriaeth allweddol yn Rhaglen Dementia Gorllewin Morgannwg. Drwy ymyriadau cynnar a diagnosis, mae gwasanaethau cymorth yn cael eu nodi, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a gwasanaethau statudol fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Nod hyn yw atal argyfwng; osgoi derbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty a derbyniadau i gyfleusterau gofal tymor hir; ac mae'n rhan bwysig o daith dementia unigolyn.

3.39 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Mae'r Prosiect Cymorth Cyn Asesu'r Cof (ardal Castell-nedd Port Talbot) yn cynnwys Gweithwyr Cymorth Dementia sy'n:

- helpu pobl wrth iddynt aros am ddiagnosis dementia drwy ddatblygu cynllun cymorth integredig; a chydlynu cymorth ymarferol ac emosiynol yn ôl yr angen i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth
- cysylltu ac uwchgyfeirio pryderon gydag unigolion sy'n aros am ddiagnosis drwy feddygon teulu a Rhith Wardiau
- gweithio'n agos gyda y trydydd sector, cydlynwyr ardaloedd lleol, a gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ehangach.

3.40 Ar ben hynny, mae sefydlu Uwch Ymarferwyr Nyrsio yn cefnogi gwelliant mewn capasiti diagnostig o fewn Gwasanaeth Asesu'r Cof, wrth iddynt reoli a darparu

ymarfer clinigol yn unol â chanllawiau lleol, strategol a [chanllawiau NICE](#) . Fel ymarferwyr clinigol annibynnol, gallant wahaniaethu a llunio diagnosis ar gyfer pobl ag amheuaeth o ddementia, gan nodi llwybrau triniaeth meddygol a seicogymdeithasol addas.

- 3.41 Hefyd o fewn Gwasanaeth Asesu'r Cof, mae therapyddion iaith a lleferydd yn darparu asesiadau, cyngor a chymorth cyfathrebu arbenigol a dysffagia (h.y. anawsterau llyncu) i bobl o bob oed sy'n cyfleu newidiadau gwybyddol ac ieithyddol cynnar. Nod hyn yw sicrhau bod ysgogwyr a safonau allweddol yn cael eu cyflawni mewn modd cadarn a chyfannol³ er mwyn gwella canlyniadau i gleifion, teuluoedd a gofalwyr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

- 3.42 Yng Ngorllewin Cymru, mae'r prosiect Trawsnewid Gwasanaeth Llesiant Dementia (Dementia MAS) wedi bod yn gweithio i safoni'r prosesau sy'n cefnogi diagnosis o ddementia. Nod y prosiect yw gwella mynediad amserol at Wasanaeth Asesu'r Cof; darparu ymyriadau seico-gymdeithasol ôl-ddiagnostig cymesur; ac mae'n cynnwys cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo i alluogi'r pedwar Gwasanaeth Asesu'r Cof yng Ngorllewin Cymru i ehangu'r gwasanaethau presennol mewn tagfeydd allweddol. Dyma ei amcanion:

- cynyddu cyfraddau diagnosis pobl sy'n byw gyda dementia
- lleihau rhestrau aros ac amseroedd o'r atgyfeiriad i'r asesiad (cael eu hasesu o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad derbyniol)
- lleihau rhestrau aros ac amseroedd o'r asesiad i'r diagnosis/triniaeth (o fewn 12 wythnos i'r atgyfeiriad derbyniol).

³ E.e. Cynllun Gweithredu Dementia 2018-2022, Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan, 2021, canllawiau NICE 2018, a Llwybr Dementia'r Bwrdd Iechyd.

Byw cystal â phosibl am gyn hired â phosibl; a mwy o gefnogaeth

Mae pobl â dementia a'u gofalmwyr a'u teuluoedd yn gallu cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hyblyg; a chael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n addasu wrth i anghenion unigolyn gynyddu.

Cefnogaeth yn y gymuned

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

3.43 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn tynnu sylw at ddarparu cymorth wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng nghartrefi a chymunedau pobl, gan gynnwys cartrefi gofal. Mae cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ofalmwyr di-dâl mewn cymunedau hefyd yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig o ran:

- darparu cyngor ar fyw gyda dementia a strategaethau gofalu i ofalmwyr;
- eu cefnogi i gysylltu â chyfoedion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol i leihau gorbryder, cynyddu dealltwriaeth a rhannu technegau ymdopi
- darparu seibiant byr.

3.44 Ar ben hynny, caiff cynlluniau ymddygiad a therapi a gwaith mewngymorth ei wneud gyda gofalmwyr yn eu cartrefi eu hunain.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

3.45 Yng Ngwent, mae'r rhaglen Byw'n Dda gyda Dementia yn sefydlu system gymorth integredig a chysylltiedig o amgylch y sawl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalmwyr. Nod y rhaglen yw:

- cynyddu'r gefnogaeth drwy system ddi-dor i bobl â dementia fyw mor dda â phosibl, am gyn hired â phosibl
- galluogi gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer ymyrraeth gynnar; ac ymyriadau cefnogol i fyw'n dda drwy fanteisio i'r eithaf ar annibyniaeth a gallu pobl i gymryd rhan yn y gymuned.

3.46 Mae'r rhaglen Byw gyda Dementia yn cynnwys dwy brif ffrwd waith: Cymorth Dementia yn y Gymuned a Gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia. Mae'r prosiectau sy'n rhan o ffrwd waith Cymorth gyda Dementia yn y Gymuned yn cynnwys y canlynol:

- Cysylltu Bywydau Dementia, sy'n cynnig cymorth unigol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion naill ai yn eu cartref eu hunain

neu yn y gymuned leol, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol a chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cymorth yn ystod y dydd ac arosiadau seibiant dros nos i bobl sy'n byw gyda dementia (lle mae gofalwyr Cysylltu Bywydau sydd wedi'u hyfforddi a'u cymeradwyo yn eu cynnwys fel rhan o'u cartref, gan ganolbwyntio ar greu amgylchedd teuluol sy'n meithrin llesiant emosiynol a chymdeithasol). Mae hyn yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i aros yn y gymuned; ac mae'n cynnig dewis amgen go iawn i ofal preswyl a derbyn cleifion mewnol

- Mae'r Gwasanaeth Mapio, Addysg a Gofalwyr (MECS) yn darparu dulliau Mapio Gofal Dementia ar draws amrywiol leoliadau, gan wella ansawdd gofal drwy hyfforddiant a gweithdai i wreiddio egwyddorion Mapio Gofal Dementia, a chaniatáu i staff deilwra arferion gofal i anghenion pobl sy'n byw gyda dementia. Ategir hyn gan gwrs addysg a gwybodaeth gofalwyr Gwasanaeth Mapio, Addysg a Gofalwyr, sy'n ymestyn hyfforddiant i ofalwyr, gan wella eu dealltwriaeth o ddementia a gwella eu gallu i ofalu
- mae'r Gwasanaeth Cymorth Dementia yn darparu cymorth personol wyneb yn wyneb a digidol i bobl sy'n byw gyda dementia, a gofalwyr, drwy sesiynau un-i-un, gwybodaeth, arweiniad, hyfforddiant a chymorth ymarferol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio'n agos â darparwyr gofal iechyd i sicrhau gofal cydlynol ac atgyfeiriadau di-dor; ac mae wedi gwneud gwaith hyrwyddo ac wedi cysylltu â sefydliadau trydydd sector i ddarparu mwy o wasanaethau i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt
- mae'r prosiect Cymorth i Dementia Cynnar yn asesu ac yn cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia cynnar a'u gofalwyr yn y gymuned. Nod y prosiect yw archwilio ac ymgymryd â chynllunio gofal uwch (drwy gynlluniau cymorth wedi'u teilwra) yn y camau cynnar i gefnogi gyda dirywiad dementia ac atal argyfwng yn y dyfodol lle bo hynny'n bosibl. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chydlynu drwy wasanaethau cymdeithasol ac iechyd, gan ddefnyddio cymorth un-i-un, sesiynau therapi grŵp, a gweithgareddau cymdeithasol integredig sydd wedi'u cynllunio i ymgysylltu â chleifion a'u cefnogi mewn lleoliad cymunedol

- Nod y prosiect Sgrinio Risg Maethol yw mynd i'r afael â'r risgiau diffyg maeth ymysg pobl sy'n byw gyda dementia drwy sgrinio systematig gan ddefnyddio'r adnodd '[MUST \(BAPEN\)](#)'. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi saith Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn i gynnal sesiynau sgrinio rheolaidd, gan ganolbwyntio ar ganfod yn gynnar ac ymyriadau deietegol amserol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

- 3.47 Mae prosiect Cymorth yn y Cartref Powys yn wasanaeth cymorth ac atal cynnar i ddinasyddion (50 oed a hŷn) sy'n gweithio i wneud y gorau o ran llesiant ac annibyniaeth; atal unigrwydd, arwahanrwydd, ac iechyd meddwl a llesiant gwael; gohirio dirywiad iechyd a llesiant sy'n deillio o heneiddio, salwch neu anabledd; a lleihau'r angen am ymyrraeth statudol ac uwchgyfeirio o ran gofal.
- 3.48 Nod Gwasanaeth Cyfeillio Powys ar draws y sir yw gwella annibyniaeth pobl 50 oed a hŷn drwy gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u helpu i aros yn eu cartrefi cyhyd ag y gallant; gan leihau neu ohirio'r angen am wasanaethau iechyd a chymorth cymdeithasol ar lefel uwch. Gwneir hyn drwy weithgareddau cyfeillio a chymdeithasol sy'n cael eu darparu gan wirfoddolwyr, lle mae cleientiaid yn cael eu cefnogi i gyflawni tasgau byw'n annibynnol bob dydd, dysgu sgiliau newydd, a theimlo'n rhan o'u cymuned leol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn galluogi gofalwyr i gael seibiant oddi wrth eu trefn ofalu. Mae cymorth grŵp wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gael, ychwanegiad diweddar nodedig yw grŵp ar-lein o'r enw 'Memory Lane' yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr, sy'n gallu rhannu eu hatgofion â'r bobl eraill sy'n bresennol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi defnyddio adnoddau a chyfleusterau yng Ngwasanaeth Llyfrgell Powys, gan gynnwys blychau atgofion i ysgogi atgofion ac annog sgysiau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

- 3.49 Yng Ngorllewin Morgannwg, y nod yw creu cymunedau sy'n deall dementia drwy sefydlu gweithgareddau grŵp sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Me, Myself & I Castell-nedd Port Talbot – canolfan gymunedol sy'n ceisio cefnogi pobl ar eu taith gyda dementia, gan ddarparu cyfleoedd i bobl gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned am gyfnod hirach, a helpu i atal arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd

- Prosiect Dementia a Gofalwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe – sy'n ceisio sefydlu rhaglen gydlynol o gefnogaeth ledled Abertawe ar gyfer unigolion â dementia a'u gofalwyr drwy gyfeillio â gwirfoddolwyr; cymorth gan gyfoedion mewn caffis dementia; a chefnogaeth un-i-un drwy glinig dementia. Bydd y prosiect hefyd yn darparu cymorth datblygu a hyfforddiant i fudiadau trydydd sector a grwpiau cymunedol, gan eu galluogi i gefnogi unigolion i fyw'n dda gyda dementia
- Y Gweilch yn y Gymuned: Sporting Memories - sy'n manteisio ar bŵer cyfunol chwaraeon i ennyn diddordeb pobl mewn sgysiau (yn Gymraeg ac yn Saesneg); ac sy'n defnyddio'r broses ymgysylltu gychwynnol hon fel cyfrwng i annog cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol priodol a pherthnasol
- Prosiect Red Community: Côr Musical Memories – sy'n cynnull corau mewn dau leoliad yn Abertawe bob wythnos ac sy'n cynnig sesiynau 'Côr Musical Memories on the Road', gan ymweld â gwahanol gymunedau ar draws y ddinas i ddangos manteision canu a, lle bo'n bosibl, eu cefnogi i ddechrau eu corau eu hunain.

3.50 Nod y grwpiau yw lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, gwella sgiliau cymdeithasol, gwella llesiant y rhai sy'n bresennol, a darparu cyfleoedd i gynnal gweithrediad corfforol a gwybyddol. Mae cael amrywiaeth o grwpiau yn cynnig dewis, ac nid oes stigma ynghylch yr ymyrraeth gynnar a ddarperir, ac mae'n darparu model cadarnhaol bod bywyd gwerth ei fyw gyda dementia. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael hefyd yn gymorth i ofalwyr di-dâl gan eu bod yn rhannu cyngor, yn eu cyfeirio at wasanaethau priodol, a bod modd iddynt siarad â gofalwyr di-dâl eraill am eu profiadau a pheidio â theimlo eu bod ar eu pen eu hunain.

3.51 Dyma brosiectau cymunedol eraill ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr:

- prosiect Partneriaeth Dementia Ranbarthol Gorllewin Morgannwg Age Cymru⁴ – partneriaeth newydd dan arweiniad y sector gwirfoddol sy'n ceisio darparu gwasanaeth cymorth cymunedol cofleidiol, tymor hir i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'r prosiect yn gynllun peilot dwy flynedd, a bydd yn defnyddio'r cryfderau, yr arbenigedd, y rhwydweithiau a'r lefelau ymgysylltu â chleientiaid y gall pob un o'r sefydliadau partner eu cynnig
- mae'r Hwb Dementia yn Abertawe yn darparu cymorth a gwybodaeth i alluogi pobl i ganfod beth sydd ar gael i'w helpu nhw a'u hanwyliaid, gyda gwybodaeth ar gael ar gyfer pob cam o'r daith dementia. Mae ar agor rhwng 11am a 3pm saith diwrnod yr wythnos
- Alzheimer's Society Cymru: Dementia Connect, sy'n cefnogi pobl sy'n aros i gael eu gweld gan Wasanaeth Asesu'r Cof, gan sicrhau bod y rheini sydd angen arweiniad drwy'r broses ddiagnosis yn cael yr wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

3.52 Yng Ngorllewin Cymru, mae'r model 'Cymunedau sy'n Deall Dementia' bellach wedi ehangu o Sir Benfro i Sir Gaerfyrddin. Nodau'r prosiectau yw gweithio gyda phobl leol, cymunedau a sefydliadau i ddatblygu rhwydwaith o gymunedau a gweithgareddau sy'n cefnogi pobl â dementia er mwyn:

- galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl; teimlo'n rhan o'u cymuned; a theimlo'n hyderus, eu bod yn cael eu deall, yn cael eu parchu ac yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd
- grymuso pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr i fyw bywyd fel y dymunant, ac i ymwneud â'u cymunedau fel y gwelant yn dda
- eiriol bod pobl sy'n byw gyda dementia yn gallu parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau

⁴ Mae'n cynnwys Age Cymru Gorllewin Morgannwg; Canolfan Gofalwyr Abertawe; Canolfan Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot; Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot; a Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin.

- sefydlu gweithgarwch lleol cynaliadwy sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys darparu sesiynau ymwybyddiaeth o ddementia mewn cymunedau.

3.53 Mae cyllid hefyd wedi helpu i ail-lansio Gwasanaeth Dementia Cynnar Sir Benfro, sydd wedi cael ei dderbyn gan bwyllgor lleol o aelodau'r gymuned, gan gynnwys gofalwyr. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod pobl sy'n byw yn Sir Benfro sydd wedi cael diagnosis ffurfiol neu sy'n aros am ddiagnosis o ddementia cynnar yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran; cynnal sgiliau; cynyddu eu hunanhyder, eu hunan-barch a'u hannibyniaeth; a theimlo'n rhan o'u cymuned. Mae cyllid wedi'i sicrhau i gynnal y sesiynau am y tair blynedd nesaf o leiaf.

Gwasanaethau a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

3.54 Nod elfen Gofal a Chymorth Cymunedol Dementia Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yw cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ofal yn y gymuned. Ei nod yw galluogi pobl sy'n byw â dementia i gael gofal a chymorth yn agos at eu cartref gan 'dîm ymroddedig ac amlddisgyblaethol o amgylch yr unigolyn' fel a ganlyn:

- tîm ymroddedig ac amlddisgyblaethol o amgylch yr unigolyn clinigol: mae'r tîm hwn o weithwyr proffesiynol clinigol (gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn rhan o Dimau Adnoddau Cymunedol ac mae'n darparu cymorth cofleidiol yn y gymuned. Mae tîm bach o weithwyr seicoleg proffesiynol hefyd yn cynnig cefnogaeth emosiynol i'r rheini sydd wedi cael diagnosis newydd, gan gynnwys eu gofalwyr di-dâl
- cymorth anghlinigol: Mae Gweithwyr Cyswllt Cof yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi cael diagnosis, gan gynnwys cyfeirio; cysylltu â'r gymuned; a gweithio tuag at wella ansawdd gofal i breswylwyr mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

3.55 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gweithredu [Darllenwch amdanaf i \(GIG Cymru\)](#) sy'n adnodd bywgraffyddol i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu rheoli'n briodol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

- 3.56 Yng Nghwm Taf Morgannwg, mae amrywiaeth o bartneriaid yn cydweithio i lunio a darparu cymorth amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Y nod yw gwella cydnerthedd ymhlith pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr; ac ymateb i faterion meddygol yn brydlon, gan leihau'r angen am ofal cleifion mewnol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau cynlluniau gofal wrth gefn i gefnogi unigolion i gael gafael ar wasanaethau mewn modd amserol wrth ymateb i newidiadau mewn angen.
- 3.57 Un agwedd allweddol ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghwm Taf Morgannwg yw darparu Gweithwyr Cymorth Dementia ac Emosiynol, sy'n gweithredu fel 'asgwrn cefn' i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr i gael gafael ar gymorth gyda gweithgareddau cymdeithasol a gwell llesiant cymdeithasol; atgyfeiriadau at grwpiau a sefydliadau perthnasol; a rhoi seibiant i ofalwyr.
- 3.58 Mae Grŵp Llywio Dementia Cwm Taf Morgannwg hefyd yn datblygu asesiadau ac ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol rhagataliol ar gyfer gofalwyr er mwyn gwneud y gorau o'u hiechyd a'u llesiant; yn ogystal â dulliau cynllunio rhagweledol/wrth gefn i'w cefnogi yn eu rolau gofalu.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

- 3.59 Mae'r rhaglen Byw'n Dda gyda Dementia yng Ngwent wedi sefydlu system gymorth integredig a chysylltiedig o amgylch y sawl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r rhaglen yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia a'i nod yw:
- cynyddu'r gefnogaeth drwy system ddi-dor i bobl â dementia fyw mor dda â phosibl, am gyn hired â phosibl
 - galluogi gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer ymyrraeth gynnar; ac ymyriadau cefnogol i fyw'n dda drwy fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth a'u gallu i gymryd rhan yn y gymuned.
- 3.60 Mae'r rhaglen Byw gyda Dementia yn cynnwys dwy brif ffrwd waith: Gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia a Chymorth gyda Dementia yn y Gymuned. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r cyntaf (mae'r olaf wedi'i amlinellu uchod ym mharagraff 3.46).
- 3.61 Mae Gwasanaethau Ailalluogi ar gyfer pobl â Dementia yn cynnwys pum prosiect ar draws Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Ei nod yw galluogi unigolion â dementia i adennill a chynnal annibyniaeth drwy ddarparu asesiad cyfannol, gosod nodau cynlluniau gofal trylwyr (gan ddefnyddio sgysiau

‘beth sy’n bwysig’), a chymorth sydd wedi’i bersonoli ac sy’n darparu ymyriadau sy’n canolbwyntio ar nodau. Mae’r prosiectau’n canolbwyntio ar wella annibyniaeth a llesiant cyffredinol unigolion sy’n byw gyda dementia drwy ddull mwy integredig sy’n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn o ran gofal dementia; a rhoi’r unigolyn sy’n byw gyda dementia a gofalwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.

- 3.62 Mae llwyddiant y prosiectau hyn yn cael ei ragweld drwy sicrhau mwy o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau sy’n ymwneud â gofal dementia; symleiddio prosesau a lleihau oedi wrth ddarparu gwasanaethau. Mae diagnosis cynnar ac ymyrraeth amserol yn cael eu blaenoriaethu, ochr yn ochr ag ehangu rhaglenni hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i arfogi darparwyr gofal yn well a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ddementia. Nod gwell integreiddio a hygyrchedd gwasanaethau, wedi’u hwyluso gan ganolfannau technoleg a chymunedol, yw darparu cymorth cynhwysfawr. Ar ben hynny, mae ymgysylltu â thechnoleg gynorthwyol i wella dulliau cyfathrebu a monitro yn cael ei ystyried yn ffactor llwyddiant allweddol, gyda hyfforddiant a chymorth parhaus i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 3.63 Mae cynllun Llwybr Cymorth gyda’r Cof Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi gwasanaeth hawdd ei ddefnyddio, sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn deg i bobl sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr. Mae tri cham i’r llwybr:
- addysg a chymorth cyn-asesu, a ddarperir ar y dechrau gan bartneriaid trydydd sector a gomisiynir yn rhanbarthol
 - asesiad clinigol gan wasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn, awdioleg, a gwasanaethau clinigol eraill
 - cymorth ôl-ddiagnostig yn dilyn yr asesiad a’r diagnosis clinigol.
- 3.64 Mae’r Llwybr Cymorth gyda’r Cof yn cynnwys pedwar sefydliad trydydd sector⁵ yn gweithio mewn partneriaeth â’i gilydd a chyda phartneriaid statudol. Mae’r gwasanaeth yn darparu cymorth i unrhyw un sy’n poeni am eu cof a/neu y mae dementia yn effeithio arnynt, o ddiagnosis ymlaen llaw i ddiwedd oes, gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt. Ei nod yw sicrhau bod y gefnogaeth mewn un lle, gydag arweinwyr mewn ysbytai a

⁵ Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS), Cymdeithas Alzheimer, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, a Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr.

chanolfannau dementia ym mhob sir ar draws Gogledd Cymru. Mae darpariaeth y trydydd sector ar y llwybr wedi'i chynllunio fel y gellir cael mynediad ati ar unrhyw adeg drwy un pwynt mynediad rhanbarthol.

- 3.65 Mae cynllun Gwasanaethau Cymorth gyda Dementia yn y Gymuned y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gael cefnogaeth gan dîm gwybodus sydd â sgiliau arbenigol mewn gofal dementia; a chymorth i hyrwyddo llesiant, gan eu galluogi i barhau'n annibynnol gartref. Mae gweithwyr cymorth dementia arbenigol yn gysylltiedig â phob Tîm Adnoddau Cymunedol, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Pobl Hŷn, gweithwyr iechyd meddwl presennol, a sefydliadau trydydd sector. Mae'r Gweithiwr Cymorth Dementia yn chwarae rhan hollbwysig mewn 'tîm amlddisgyblaethol o amgylch yr unigolyn,' gan ddarparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 3.66 Mae gweithgarwch o fewn Gwasanaethau Cymorth gyda Dementia yn y Gymuned wedi cynnwys:
- Meddwl Ymlaen Cynllunio Ymlaen, lle mae gofalwyr di-dâl wedi cael cymorth i gynllunio a gweithredu cynlluniau ar gyfer y dyfodol
 - Gweithwyr Cymorth Dementia yn gweithio fel rhan o Dimau Adnoddau Cymunedol i sicrhau darpariaeth ymroddedig ac amlddisgyblaethol o amgylch yr unigolyn
 - y prosiect Cynnydd i Ddarparwyr, sydd wedi cefnogi pecyn o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y gweithlu gofal, gyda darparwyr yn gweithio tuag at gynllun achredu ac yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd unigolion
 - Gweithwyr Cymorth Cymunedol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau corfforol a chymdeithasol, cysylltu a chydweithio â grwpiau cymunedol i hwyluso rhwydwaith o gefnogaeth lle gellir ceisio cyngor a gwybodaeth i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt
 - grwpiau cymorth gan gymheiriaid lle gall unigolion ag amgylchiadau tebyg rannu eu profiadau a'u dysgu a meithrin rhwydweithiau cymorth pellach drwy gyfeillgarwch yn eu cymunedau lleol⁶.
- 3.67 I ofalwyr, mae'r cynllun Seibiant Dementia yn darparu cymorth ac ymgysylltiad, seibiant byr arbenigol, a seibiant (gan gynnwys seibiant brys). Darperir cymorth i

⁶ Er bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cefnogi gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'r trydydd sector, bydd canlyniadau'n cael eu sicrhau wrth roi llais i unigolion a rheolaeth dros eu hanghenion iechyd a llesiant.

ofalwyr di-dâl drwy asesiadau llesiant gofalwyr a chymorth parhaus. Mae Swyddogion Llesiant yn cefnogi'r gwaith o weithredu sgysiau creadigol i nodi 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn sy'n byw gyda dementia; ac mae gwybodaeth, cymorth a chyfeirio at wasanaethau wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Ar ben hynny, mae prosiect dan arweiniad Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) wedi cynnal digwyddiadau cymdeithasol a sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant dementia ar gyfer gofalwyr ac aelodau teulu pobl sy'n byw gyda dementia.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

- 3.68 Ym Mhowys, mae'r prosiect Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl i gael gafael ar wasanaethau a gweithgareddau ar lefel y gymuned sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol ac i atal yr angen am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar lefel uwch. Mae'n ystyried anghenion pob cleient (18 oed a hŷn) ar sail y sgwrs 'beth sy'n bwysig'; ac nid oes unrhyw un yn cael ei eithrio rhag cael mynediad at y gwasanaeth oherwydd diagnosis o ddementia neu nodwedd arall. Mae'r Cysylltwyr yn gweithio gydag unigolion i ganfod eu cryfderau a'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan eu cefnogi i gael gafael ar gefnogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau gan y trydydd sector, a grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Maent yn cysylltu â phrosiectau sy'n benodol i ddementia ledled Powys a thu hwnt, gan atgyfeirio a chyfeirio pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr at y grŵp/cymorth perthnasol y cytunwyd arno.
- 3.69 Mae allbynnau gwasanaeth yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i Bartneriaeth Heneiddio'n Dda y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Gwasanaethau Cymdeithasol Powys gyda'r bwriad o ddeall bylchau mewn gwasanaethau ac adnoddau. Er enghraifft, tynnwyd sylw'n ddiweddar at y ffaith bod diffyg cefnogaeth o ran siopa yn rhwystr sylweddol i bobl aros yn annibynnol gartref. Canlyniad hyn yw bod pobl yn aml yn cael eu cyfeirio at y mathau anghywir o wasanaethau fel gofal cartref, gan roi mwy o bwysau ar y system ac ôl-groniadau ymysg y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cywir mewn modd amserol.
- 3.70 Mae Tîm Triniaeth Dementia yn y Cartref Powys hefyd yn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gleifion sydd wedi cael diagnosis o ddementia, a'u gofalwyr a'u teuluoedd. Mae'r gefnogaeth yn hyblyg yn seiliedig ar anghenion unigolion. Mae'r ymyriadau a ddarperir gan y Tîm yn ceisio galluogi cleifion i aros yn eu cartrefi eu hunain/derbyn gofal mor agos at eu cartref â phosibl, gan atal derbyniadau i'r ysbyty.

3.71 Mae'r Tîm wedi bod yn gweithio i ddarparu:

- asesiadau clinigol dwys, di-dor ac amlddisgyblaethol; a chynllunio gofal ac ymyriadau ar gyfer cleifion 'risg uchel' â dementia, gyda'r gallu i ymateb yn brydlon
- asesu risg arbenigol a rheoli methiannau o ran teuluoedd/lleoliadau gofal
- cymorth mwy amserol i'r rheini sy'n profi dirywiad yn eu cyflwr er mwyn osgoi argyfwng
- cysylltedd â'r trydydd sector i ddarparu cymorth priodol i'r unigolyn â dementia a'i deulu/gofalwyr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

3.72 Yng Ngorllewin Morgannwg, nod y cymorth sy'n cael ei ddarparu ar ôl diagnosis yw sicrhau bod unigolion sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn cael dewis ble maen nhw'n byw, bod rhywun yn gwrandao arnyn nhw, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau priodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r lefel gywir o gymorth i ofalwyr di-dâl i alluogi'r rheini sydd eisiau byw gartref i wneud hynny'n ddiogel.

3.73 Un prosiect allweddol yw Gwasanaeth Gofal a Seibiant Dementia Marie Curie, sy'n darparu gofal a chymorth seibiant i bobl sy'n byw gyda dementia, gan eu galluogi i aros gartref; a chymorth i'w gofalwyr i helpu i atal yr angen a'r argyfwng rhag gwaethygu.

3.74 Mae cymorth arall sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnwys:

- Prosiect Braenaru Dementia, sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr drwy gynllun cymorth dementia, gan eu helpu i ganfod ble i gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn
- Age Connects Castell-nedd Port Talbot: Dementia Care Connects, lle mae Swyddogion Datblygu Dementia (sydd â phrofiad o hyrwyddo arferion effeithiol ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn ddiweddar) yn cydnabod anghenion unigol, ac yn ymgorffori anghenion cymorth rhoddwyr gofal mewn gwasanaethau/gweithgareddau cymorth ataliol pwrpasol
- Gwasanaeth Cymorth Dementia Alzheimer's Society Cymru, sy'n cynnig un pwynt mynediad syml sy'n gweithio law yn llaw â gofal clinigol. Mae'n cysylltu defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys gofalwyr,

â chymorth ymarferol hanfodol i'w grymuso i reoli eu cyflwr yn annibynnol a pharhau'n weithgar yn eu cymuned.

- Mae Gwasanaeth Llwybr Dementia Age Cymru, sy'n cefnogi cleifion sydd newydd gael diagnosis i ddatblygu cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llwybr at wasanaethau lleol; yn rhoi cynllunio ymlaen llaw ar waith ac yn glynu wrtho pan fyddant yn colli gallu gwybyddol (h.y. drwy Atwrneiaeth Arhosol); ac yn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty/cartref a/neu fynd 'ar goll yn y system' ar ôl cael diagnosis.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

- 3.75 Agwedd allweddol ar y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gynigir yng Ngorllewin Cymru yw'r Gwasanaeth Llesiant Dementia. Mae tîm amlddisgyblaethol bach yn darparu cymorth cofleidiol i bobl sy'n byw gyda dementia drwy ddylanwadu ar ofal ar draws gwasanaethau a sectorau gofal, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at ofal priodol pan fo angen; ac atgyfnerthu'r neges bod dementia yn fusnes i bawb ac nad yw hawliau rhywun yn lleihau oherwydd diagnosis o ddementia.
- 3.76 Un o brif nodau'r gwasanaeth hwn yw lleihau'r cynnydd mewn gofal y gellir ei osgoi. Gwneir hyn, yn rhannol, drwy rymuso ac uwchsgilio staff mewn cartrefi gofal i ganfod a diwallu anghenion pobl sy'n byw â dementia yn well, gan eu galluogi i aros yn eu lleoliad gofal presennol am fwy o amser.

3.77 Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y prosiectau penodol canlynol:

- Hyfforddiant Sylfeini ar gyfer Llesiant Dementia i staff cartrefi gofal, gan eu datblygu'n Hyfforddwyr Gofal Dementia sy'n gweithio i wreiddio dulliau gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau yn eu cartref gofal. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cymorth parhaus i gartrefi sydd wedi cwblhau'r cwrs i'w helpu i gynllunio'n ymarferol a gweithredu dulliau newydd a newid diwylliannol, ac mae'n darparu cymorth rheoli achosion penodol i bobl sy'n byw gyda dementia er mwyn lleihau'r cynnydd mewn gofal y gellir ei osgoi
- Hyfforddiant Bwyta ac Yfed ar gyfer staff cartrefi gofal fel eu bod yn deall pam y gallai pobl sy'n byw gyda dementia wrthod bwyta; a bod ganddynt yr hyder a'r wybodaeth i'w cefnogi'n briodol
- Gofal fesul cam Cymorth Deieteg, lle mae dietegydd yn gweithio gyda dietegydd cymunedol i adolygu'r llwyth achosion cymunedol, gan gydnabod rôl cysgodi diagnostig (cam-briodoli symptomau un salwch i gydafiachedd sydd eisoes wedi'i ddiagnosio) o ran deall anghenion maeth a hydradu pobl sy'n byw gyda dementia. Nod hwn yw darparu gofal darbodus, ac ymyrraeth amserol a phriodol.

3.78 Mae'r ail brosiect allweddol yng Ngorllewin Cymru, a ddechreuodd ym mis Mehefin 2024, yn cyflawni gofynion rôl 'Cysylltydd Llesiant Dementia' (sy'n cyd-fynd â Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan) o ran darparu un pwynt cyswllt penodol i bobl sy'n byw â dementia, sy'n darparu cymorth, gwybodaeth a chynghor o ddiagnosis hyd at ddiwedd oes. Dyma brif fanteision disgwylidig y prosiect:

- cefnogi'r sawl sy'n byw gyda dementia i wneud y canlynol:
 - cyflawni'r canlyniadau a ddymunant
 - teimlo eu bod wedi'u grymuso i siarad drostynt eu hunain a chyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
 - teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu cynllun llesiant a/neu eu bod yn cael cymorth i wneud hynny
 - sicrhau'r ansawdd bywyd gorau posibl, ac ystyried eu hamgylchiadau a'u hanghenion iechyd
 - cael mynediad at y system iechyd a gofal cymdeithasol a'i defnyddio

- cefnogi'r gwaith o gydnabod anghenion lliniarol a diwedd oes ar gyfer y sawl sy'n byw gyda dementia a chefnogi mynediad at gymorth ychwanegol priodol i ddiwallu'r anghenion hyn
- cefnogi gofalwyr i wneud y canlynol:
 - teimlo bod ganddynt y grym i siarad ar ran y sawl y maent yn gofalu amdano a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar ofal yr unigolyn hwnnw lle bo angen
 - cael gafael ar wybodaeth berthnasol a phriodol am y cymorth sydd ar gael iddynt
 - teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u cefnogi yn eu rôl gofalu
 - sicrhau bod eu hanghenion, a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn cael eu cydnabod a'u cefnogi.

3.79 Sefydlwyd Gwasanaeth Nyrsio Admiral i ddarparu cymorth cofleidiol Haen 1 i ofalwyr a pherthnasau pobl sy'n byw gyda dementia pan fydd eu gofal yn mynd yn gymhleth neu eisoes yn gymhleth. Mae'r tîm o nyrsys sy'n gweithio ym mhob ardal (cyfanswm o saith) yn darparu gwaith achos cymhleth i ofalwyr a pherthnasau, gyda'r nod o sicrhau eu bod:

- yn gallu cael gafael ar gymorth pwrpasol ac wedi'i deilwra pan fydd eu rolau gofalu yn achosi straen ac yn mynd yn gymhleth
- profi gwell iechyd a llesiant ar ôl darparu ymyriadau seico-gymdeithasol arbenigol.

3.80 Mae tîm Nyrsio Admiral hefyd yn defnyddio ymgynghori a chydweithio i gefnogi arferion gorau gyda rhanddeiliaid allweddol i wella gwybodaeth, sgiliau a hyder wrth gefnogi gofalwyr.

3.81 Mae'r prosiect yn darparu dull llwyth achosion safonol sy'n cynnig brysennu atgyfeiriadau, asesiadau unigol, ymyriadau a gwerthusiadau wedi'u hategu gan fesurau canlyniadau sy'n gysylltiedig â gofalwyr ac arolygon bodlonrwydd o ran darparu gwasanaethau. Cefnogir hyn gan brosesau cydweithio cryf â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyfarfodydd aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth rheolaidd rhwng Alzheimer's Society Cymru, Nyrsys Dementia Marie Curie, Gwasanaeth Asesu'r Cof, a Nyrsys Admiral.

Gwasanaethau a chefnogaeth yn yr ysbyty

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

- 3.82 Mae elfen 'gwaith sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty' y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar wella'r cymorth mae pobl sy'n byw â dementia yn ei gael mewn ysbytai aciwt ac mae'n ceisio lleihau trallod; annog ymgysylltiad a rhyngweithio pan fyddant yn gleifion mewnol; a hwyluso rhyddhau cyflym, amserol a diogel gartref gyda'r lefel briodol o gymorth. Mae'r elfen hon yn cael ei rheoli ar y cyd ar draws amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y ddau awdurdod lleol, a'r Trydydd Sector⁷.
- 3.83 Mae darnau penodol eraill o waith mewn ysbytai yn cynnwys:
- Mental Health Matters (MHM), sef tîm trydydd sector a gomisiynwyd i gefnogi cleifion mewnol sy'n byw gyda dementia gyda gweithgareddau ac ymgysylltu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty ac, fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, i helpu gyda'r gwaith o gynllunio rhyddhau cleifion
 - Gweithiwr Cyswllt y Cof yn y ward llawdriniaethau cyffredinol sy'n cefnogi pobl gyda gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys atgyfeirio, cyfeirio a chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Y rheswm am hyn yw bod cleifion sy'n aros am llawdriniaeth neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth yn aml yn profi deliriwm a rhithweledigaethau, ac efallai y byddant yn mynd yn fwy dryslyd nag arfer, sy'n gallu achosi straen iddynt hwy a'u hanwyliaid
 - Mapio Gofal Dementia i feincnodi a dilysu'r cynnydd a wneir o ran hyfforddiant, datblygu sgiliau ac addysg wrth wella rhyngweithio mewn lleoliadau cleifion mewnol. Mae cynlluniau nawr i wreiddio dulliau Mapio Gofal Dementia ar wardiau i hyrwyddo a gwreiddio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
 - Gwerthfawrogi persbectif unigol mewn cyd-destun cymdeithasol (VIPS)⁸ sef cynllun ward sy'n deall dementia ac sy'n ceisio cefnogi mentrau cymdeithasol, corfforol ac amgylcheddol sy'n deall dementia mewn ysbytai. Mae naw ward yn mabwysiadu'r cynllun

7 Awdurdod Lleol Caerdydd a'r Fro, Mental Health Matters, Cymdeithas Alzheimer, Nyrsys Admiral, John's Campaign, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Lions Club, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru ac ati.

8 Mae Gwerthfawrogi persbectif unigol mewn cyd-destun cymdeithasol yn fframwaith ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n gwerthfawrogi pobl â dementia a'u gofalwyr; yn trin pobl fel unigolion; yn edrych ar y byd o safbwynt yr unigolyn; ac yn cydnabod bod angen amgylchedd cymdeithasol cyfoethog ar bobl â dementia.

- Ymgyrch John, prosiect dan arweiniad Tîm Profiad Cleifion y Bwrdd Iechyd i annog gofalmwr di-dâl i barhau i gymryd rhan yn y gwaith o ofalu am eu hanwyliaid tra byddant yn aros yn yr ysbyty. Mae tair ward yn treialu'r ymgyrch, gyda dwy arall wedi cofrestru.

3.84 Mae cydweithio rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi'i gynllunio i gynnig llwybrau di-dor i bobl ar eu taith o'r ambiwlans, drwy'r adran achosion brys, nes bod penderfyniad yn cael ei wneud i naill ai dderbyn neu ryddhau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

3.85 Yng Ngwent, mae'r prosiect Bwrdd Gwarchod Cleifion yn ceisio mynd i'r afael ag argymhellion gwerthusiad y bwrdd wrth ochr y gwely. Roedd hyn yn nodi rhwystrau a oedd yn deillio o absenoldeb marcwyr byrddau gwyn a dalwyr ysgrifbinnau sydd wedi llesteirio'r defnydd effeithiol o fyrddau wrth ochr y gwely ers iddynt gael eu cyflwyno mewn wardiau yn 2022/23. Mae'r ateb arfaethedig yn cynnwys ychwanegu dalwyr ysgrifbinnau magnetig ac ysgrifbinnau at fyrddau gwyn presennol, gyda'r nod o wella gofal sy'n canolbwyntio ar y claf; gwella cyfathrebu, gwybodaeth a chydlyn gofal; ac effeithio'n gadarnhaol ar brofiad cyffredinol y claf drwy sicrhau bod yr holl ofalmwr, cleifion ac aelodau'r tîm yn gallu cyfrannu at wybodaeth sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd hwn yn ddull graddol o brofi'r cysyniad, gyda'r nod hirdymor o ehangu'r defnydd o fyrddau wrth ochr y gwely yn y dyfodol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

3.86 Yng Ngogledd Cymru, mae'r model gofal o'r ysbyty i'r cartref yn canolbwyntio ar bobl sy'n byw gyda dementia drwy ddarparu'r canlynol:

- Timau Cartref yn Gyntaf⁹ sy'n hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol o ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol, ac yn atal derbyniadau drws troi y gellir eu hosgoi drwy ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn yng nghartref y claf ei hun
- oriau a swyddi ychwanegol o fewn timau Therapi Galwedigaethol a Ffisiotherapi i gefnogi gwaith saith diwrnod; ac o fewn timau Deieteg i gefnogi gweithio pum diwrnod
- cynllun osgoi derbyniadau, sy'n sicrhau bod cleifion yn cael asesiad cynhwysfawr 'wrth y drws ffrynt,' lle nodir dewisiadau eraill yn lle derbyn

⁹ Timau sy'n darparu gwasanaeth ailalluogi tymor byr i helpu pobl i wella gartref yn ddiogel pan fyddant yn sâl.

- gwelyau camu i fyny ac i lawr fel dewis amgen i ysbyty i unigolion wella o gyfnod o salwch gyda chymorth proffesiynol. Mae gwelyau camu i fyny yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu derbyn; ac mae gwelyau camu i lawr yn cael eu cynnig am gyfnod byr er mwyn helpu i wella a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

- 3.87 Ym Mhowys, mae Cysylltwyr Cymunedol PAVO yn mynd i gyfarfodydd ward rhithiol, tîm amlddisgyblaethol a llif cleifion gyda chydweithwyr iechyd a gofal; ac yn cefnogi cleientiaid cleifion mewnol drwy gyfarfodydd cynllunio rhyddhau, gan fewnbynnu gwybodaeth y trydydd sector i sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau gartref yn ddiogel ac yn dda.
- 3.88 Mae Tîm Triniaeth Dementia yn y Cartref Gogledd Powys yn cysylltu â gwasanaethau cleifion mewnol a chydlynwyr rhyddhau cleifion, gan hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion mewnol â dementia sydd ag anghenion cymhleth yn amserol o'r ysbyty. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn rowndiau ward a chyfarfodydd cynllunio rhyddhau. Mae gwasanaeth y Tîm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae cynlluniau ar waith i gysoni Timau Triniaeth Dementia yn y Cartref Gogledd a De Powys.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

- 3.89 Mae Cartref Gofal Tŷ Waunarlwydd (Westfield House) yn cynnig wyth gwely camu i lawr ar gyfer pobl sy'n feddygol gymwys i'w rhyddhau, sy'n byw gydag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â dementia, ac sydd angen cyfnod setlo ac asesu i sefydlu eu gofynion ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwelyau camu i lawr hyn wedi darparu cyfleoedd ail-alluogi i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia i ddychwelyd adref heb lawer o gefnogaeth.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

- 3.90 Yng Ngorllewin Cymru, mae cynllun peilot Celfyddydau ac Iechyd mewn partneriaeth ag artistiaid lleol a phartneriaid celfyddydol ar gyfer cleifion mewnol â dementia yn cael ei gyflwyno ar draws y pedwar ysbyty aciwt yn y rhanbarth, yn profi ei fod yn gwella profiad cleifion; yn lleihau unigrwydd, diflastod ac unigedd; ac yn darparu ysgogiad a lles gwybyddol.

Cefnogi'r broses o'i roi ar waith¹⁰

Dysgu a Datblygu: mae gan staff y sgiliau i'w helpu i adnabod pobl â dementia ac i deimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi anghenion unigolion ar ôl cael diagnosis.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

- 3.91 Yn ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, mae'r prosiect hyfforddi 'Fframwaith Gwaith Da' yn bwriadu hyfforddi staff sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia (cynnig gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd ar sail lefel gyswllt yr unigolyn); cynnwys eu gofalwyr; a chyd-gynhyrchu'r hyn a ddysgwyd. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â thimau dysgu a datblygu ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid yn y trydydd sector ar draws y rhanbarth i gefnogi mynediad teg at yr hyfforddiant.
- 3.92 Defnyddiwyd cyllid hefyd ar gyfer tîm hyfforddiant Gofal Dementia ardystiedig Dulliau Cadarnhaol o Ofal (PAC) i hyfforddi cydweithwyr gofal sylfaenol sy'n adolygu cleifion yn eu hardal leol i gyflawni'r cymwyseddau a amlinellir yn y Fframwaith Gwaith Da i Gymru.
- 3.93 Mae dysgu gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol hefyd yn bwysig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, fel y dangosir yn y gweithgaredd canlynol:
- gwaith allgymorth yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia, lle cynhaliwyd digwyddiadau byw a oedd yn cysylltu â gwahanol gymunedau, gan gynnwys [Amqueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion \(Amqueddfa Cymru\)](#), sesiynau cyfeillio â dementia gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a sesiynau galw heibio (yng nghyntedd Ysbyty Athrofaol Cymru, Gerddi Dyffryn, Llyfrgell y Barri, canolfannau cymunedol, Neuadd Llanofer ac ati)
 - [Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia \(GIG Cymru\)](#), sef grŵp agored annibynnol sy'n cael ei arwain gan bobl y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae'r grŵp yn gweithredu fel grŵp gwirio a chraffu ar synhwyrau, gan gyflwyno materion allweddol i'w trafod yn ehangach
 - cyfres o sesiynau ymgysylltu cryno wedi'u cynhyrchu ar y cyd o'r enw 'Agor Drysau i Ymarfer yr Ymennydd.' Arweiniwyd hyn gan grŵp

¹⁰ Mae'r adran hon yn trafod hyfforddiant, dysgu a datblygiad staff mewn gofal a chymorth dementia; ac i ba raddau y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn mabwysiadu dull cydgynhyrchol o gynllunio a darparu gwasanaethau. Lle bo'n berthnasol, mae'r materion hyn wedi cael eu plethu i'r adrannau blaenorol, felly mae'r ffocws yma ar unrhyw wybodaeth 'annibynnol' ychwanegol a ddarperir gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu hadroddiadau Diwedd Blwyddyn

cynllunio ymgysylltu aml-bartner, gan gynnwys cynrychiolwyr o ofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, gyda chymorth cymunedol gan bartneriaid trydydd sector ac arweinwyr crefyddol ac eraill

- digwyddiad a gynhyrchwyd ar y cyd yn ddiweddar â'r Gymuned Hindŵaidd, lle daeth pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol o wahanol wasanaethau o'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd. Ers hynny, mae'r gymuned wedi bod yn cwrdd ac yn sgwrsio bob wythnos drwy'r Clwb Chai sy'n cael ei redeg gan Gyngor Caerdydd, Alzheimer's Society Cymru a Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
- Digwyddiad Grymuso'r Meddwl y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, digwyddiad wedi'i gynhyrchu ar y cyd a ddaeth â phobl â phrofiad uniongyrchol a'u gofalwyr ynghyd â gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

- 3.94 Nod y prosiect dysgu dementia Fframwaith Gwaith Da yng Ngwent yw codi ymwybyddiaeth o ddementia a gwella gofal dementia drwy ehangu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r ffocws ar greu rhaglen ar draws Gwent sy'n ymdrin â lefelau gwybodus, medrus a dylanwadol o ymwybyddiaeth o ddementia a chyfleoedd dysgu¹¹. Darperir hyfforddiant drwy gyfuniad o weithdai wyneb yn wyneb, cyrsiau ar-lein, a sesiynau ymarferol sy'n galluogi cyfranogwyr i gael profiad ymarferol. Mae partneriaethau â chwmnïau hyfforddi annibynnol medrus yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o strwythuro a darparu'r cynnwys addysgol hwn.
- 3.95 O ran cydgynhyrchu, mae unigolion o grwpiau blaenoriaeth yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddylunio a gweithredu prosiectau. Er enghraifft, roedd pobl sy'n byw gyda dementia yn cymryd rhan mewn sesiynau adborth sydd wedi helpu i lywio datblygiad parhaus prosiectau fel y rhaglen Adsefydlu'r Cof yn y Cartref a Chlinigau Amhariad Gwybyddol Ysgafn (gweler paragraffau 3.8 a 3.34). Nod y dull

¹¹Mae hyfforddiant ar lefel wybodus yn canolbwyntio ar fod yn gyfaill dementia; mae hyfforddiant ar lefel fedrus yn canolbwyntio ar lesiant; ac mae hyfforddiant ar lefel dylanwadol yn adeiladu ar yr adrannau gwybodus a medrus, gan sicrhau bod gan ddylanwadolwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i siapia sut mae gwasanaethau ar gyfer pobl â dementia yn perfformio ac yn datblygu. Mae'r olaf yn canolbwyntio ar: ysgogwyr, polisi ac ymchwil, mapio gwasanaethau'n effeithiol a darpariaeth gydgyssylltiedig, gweithio cydweithredol ac integredig, gwerthoedd a gweledigaethau cyffredin, diwylliant ac iaith, darparu rhagoriaeth, dulliau gweithredu creadigol, diogelu, a sicrhau a gwella ansawdd.


cyfranogol hwn oedd grymuso unigolion a rhoi llais iddynt yn eu prosesau gofal, sy'n hanfodol ar gyfer gwella cydymffurfiaeth a boddhad o ran triniaeth.

- 3.96 Roedd gofalwyr hefyd yn rhan o'r broses o gael cipolwg ar yr heriau a'r anghenion dyddiol nad ydynt efallai'n amlwg i ddarparwyr gofal iechyd ar unwaith. Roedd eu cyfraniad yn helpu i lunio gwasanaethau cymorth, gan sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn fuddiol i gleifion a'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd adborth gan ofalwyr yn aml yn tynnu sylw at yr angen am gymorth mwy cynhwysfawr i reoli gweithgareddau o ddydd i ddydd a llywio gwasanaethau gofal iechyd, a oedd yn ei dro yn llywio datblygiad adnoddau fel grwpiau cefnogi a deunyddiau addysgol.
- 3.97 Er bod y fframwaith Gwaith Da wedi bod yn allweddol o ran gwella hyfforddiant Gwasanaeth Mapio, Addysg a Gofalwyr, mae bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol a dinasyddion o hyd. Mae'r bylchau hyn yn tynnu sylw at yr angen i ymestyn cyfleoedd dysgu a chymorth y tu hwnt i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau dull gweithredu mwy cynhwysol a chynhwysfawr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 3.98 Yng Ngogledd Cymru, mae Swyddogion Comisiynu Dementia wedi cydweithio â phobl sy'n byw gyda dementia (gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu a phobl iau) a'u gofalwyr i ddeall eu hanghenion a llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae grwpiau blaenoriaeth i'r boblogaeth wedi helpu i redeg a dylunio prosiectau dementia'r rhanbarth yn y ffordd ganlynol:

Ffigur 1: Cyd-gynhyrchu gyda grwpiau blaenoriaeth poblogaeth yn ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru



Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

3.99 Yng Ngorllewin Cymru, cafodd 'Rhaglen Cyfathrebu ac Ymgysylltu' ei chyllidebu i gefnogi'r gwaith o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddementia, gan gynnwys recriwtio cynrychiolwyr profiad ymarferol newydd. Roedd hyn yn ariannu costau cyfieithu Cymraeg o fideo a ddatblygwyd gan bartneriaid, a oedd yn tynnu sylw at brofiadau go iawn; a chynhadledd ranbarthol ar ddementia a gofal diwedd oes, lle daeth pobl ohoni o bob rhan o'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yng Ngorllewin Cymru.

Casgliadau

- 4.1 Yn ystod y [cyfweiliadau cwmpasu cychwynnol yn hydref 2019](#), roedd gan randdeiliaid safbwyntiau cymysg ar effeithiolrwydd prosesau cyfleu nodau'r Cynllun Gweithredu Dementia. Teimlai rhai bod y prif negeseuon yn adnabyddus, tra'r oedd eraill yn gweld lle i wella.
- 4.2 Ar ben hynny, er bod rhanddeiliaid yn cydnabod (yn 2019) bod y Cynllun Gweithredu Dementia a'i gyllid cysylltiedig ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi darparu ysgogiad a ffocws sylweddol o ran datblygu gwasanaethau a chymorth integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y cred yw bod sawl her o hyd. Roedd y rhain yn cynnwys amseroedd aros hir ar gyfer diagnosis ac asesiadau o anghenion; a mynediad anghyson at wybodaeth, cymorth a gweithwyr allweddol yn dilyn diagnosis o ddementia (a gafodd ei adleisio hefyd gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddementia yng ngham 1 y gwerthusiad).
- 4.3 Mae ehangder y gweithgarwch a amlygwyd yn yr adroddiadau monitro a gyfosodwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod llawer mwy o gydnabyddiaeth a gwybodaeth bellach am y Cynllun Gweithredu Dementia ei hun; a ffyrdd y gellir gwella cefnogaeth a gwasanaethau i gyflawni ei flaenoriaethau a diwallu anghenion y rhai sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn well. Roedd ymarferwyr a oedd yn cymryd rhan yng ngham 2 y gwerthusiad yn cytuno bod y Cynllun Gweithredu Dementia wedi gwneud gwahaniaeth o ran gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia; ac wedi helpu i wella darpariaeth gwasanaethau dementia drwy neilltuo cyllid a sefydlu strwythurau llywodraethu gwell.
- 4.4 Yn wir, mae tystiolaeth bod y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mabwysiadu dulliau amrywiol ac arloesol o gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Dementia. Yn ganolog i hyn mae cydweithio rhwng yr holl sectorau perthnasol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector; sicrhau atal, diagnosis a gofal/cymorth priodol yn y gymuned ac mewn ysbytai drwy dimau amlddisgyblaethol; ac integreiddio llwybrau gofal i hwyluso cymorth di-dor. Unwaith eto, dywedwyd bod y blaenoriaethau hyn yn y Cynllun Gweithredu Dementia wedi bod ar waith yn 2019 ond eu bod wedi cael eu datblygu a'u gweithredu gyda hwb newydd ar ôl Covid-19.
- 4.5 Wrth ystyried blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Dementia o ran lleihau risg a gohirio dechrau, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia, a gwella'r broses

o adnabod a nodi symptomau, mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bellach yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu yn eu priod ardaloedd i godi ymwybyddiaeth o ffactorau risg dementia yn gyffredinol; a sicrhau bod cymunedau mor dosturiol ac ystyriol o ddementia â phosibl tuag at y rheini sy'n byw gyda dementia. Mae hyn yn elfen hanfodol o sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau'n ddiogel ac yn hapus am gyn hired â phosibl. O fewn hyn, mae'r adroddiadau sy'n cael eu crynhoi yma a thystiolaeth o'r elfennau gwerthuso eraill yn dangos bod cyd-gynhyrchu datblygu gwasanaeth/cefnogaeth gymunedol gyda phobl y mae dementia yn effeithio arnynt wedi gwella, a bod ei barhad yn hanfodol.

- 4.6 Yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Dementia, mae asesu a diagnosis cynnar yn rhan annatod o strategaeth ddementia pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda datblygu Gwasanaeth Asesu'r Cof a dulliau arloesol eraill yn amlwg ym mhob rhanbarth. Fodd bynnag, [mae tystiolaeth o elfennau gwerthuso eraill cam 2](#) yn dangos bod amseroedd aros yn dal yn anghyson, gyda'r targed 12 wythnos yn dal yn uchelgeisiol, a phobl â phrofiad uniongyrchol yn aml yn gorfod cymryd camau dilynol eu hunain i sicrhau apwyntiadau neu atgyfeiriadau. Dylai parhau i adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol wella asesiadau a diagnosis amserol, er mwyn galluogi'r rheini sydd wedi cael diagnosis i gael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau a chymorth ar ôl diagnosis cyn gynted â phosibl.
- 4.7 Un o amcanion allweddol y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Dementia oedd sefydlu pa mor dda y mae dulliau gofal a chymorth dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Dementia) wedi'u gwreiddio ym mhob rhanbarth. Yn gadarnhaol, mae crynodeb yr adroddiad yn dangos bod galluogi pobl sy'n byw â dementia i fyw mor dda â phosibl cyhyd â phosibl drwy gymorth cofleididol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bellach yn ffocws canolog i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (er y dylid nodi bod rhai ymarferwyr cam 2 wedi dweud bod eu gallu i'w ddarparu yn cael ei lesteirio gan ddiffyg cyllid ac adnoddau).
- 4.8 Yn hyn o beth, mae darparu Gweithwyr Dementia Allweddol (neu rolau tebyg) yn agwedd hanfodol ar ddarpariaeth dementia bresennol pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda'r nod o sicrhau byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl, gan osgoi gwaethygu ac argyfwng. Mae hyn yn gam ymlaen ers 2019, pan ystyriwyd bod darpariaeth gweithwyr allweddol yn 'dameidiog'. Ac ystyried y pwysigrwydd cyffredinol sy'n gysylltiedig â chael un pwynt mynediad i helpu pobl sy'n byw â dementia i lywio eu taith o ddiagnosis i ofal diwedd oes, mae'n hanfodol bod darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnal a, lle bo'n bosibl, yn cael ei hehangu. O

hydref 2024 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i ddwy swydd ychwanegol fesul rhanbarth i ehangu'r dull hwn ymhellach. Mae Gweithrediaeth y GIG yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei gyflwyno'n gyson.

- 4.9 Mae cydnabod a chefnogi gofalwyr hefyd yn flaenoriaeth ym mhob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd yn y cam cwmpasu a cham 1 y gwerthusiad. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan ymarferwyr a'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o gymryd rhan yng nghanam 2 yn awgrymu bod gofal seibiant priodol yn dal yn brin, er ei fod yn cael ei grybwyll yn benodol mewn nifer o adroddiadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ond yn fwy cadarnhaol, mae'r adroddiadau hefyd yn dangos bod darparu mathau eraill o gymorth i ofalwyr, fel grwpiau cymdeithasol a chymorth gan gymheiriaid, yn gwella.
- 4.10 Mae hyn i gyd yn sail i gefnogi gweithredu drwy ddysgu a datblygu'r gweithlu (h.y. drwy'r Fframwaith Gwaith Da) i wella gwybodaeth, sgiliau a chymwysedau staff. Mae gwaith parhaus yn y cyswllt hwn yn hanfodol ac ystyried yr hoffai'r rhai a gafodd eu cyfweld sydd â phrofiad uniongyrchol o ddementia (yng nghyfnod 2) weld mwy o hyfforddiant i'r holl feddygon teulu a staff ysbytai i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i adnabod ac ymateb yn briodol i symptomau amrywiol dementia a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 4.11 Ystyriwyd bod monitro yn faes i'w wella yn ystod camau cyntaf ac ail gam yr ymchwil: roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at yr angen am gasglu a rhannu gwybodaeth a data mwy manwl ac ystyrllon i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau drwy fesur canlyniadau. Er bod hyn yn amlwg yn 'fwlch' o hyd, mae'r ffaith bod 'mesur' bellach yn flaenoriaeth benodol i nifer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dangos cydnabyddiaeth o'r angen i fynd i'r afael ag ef.
- 4.12 Yn olaf, er bod gwelliannau pwysig wedi cael eu gwneud mewn gofal a chymorth dementia ar draws pob rhanbarth, mae canfyddiadau o gamau eraill y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Dementia yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith yn y meysydd canlynol:
- sicrhau gwybodaeth gyffredinol am ddementia a'i ffactorau risg
 - y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr a'u gofalwyr a sut i gael gafael arnynt

- mynediad at wasanaethau drwy lwybrau atgyfeirio syml
- dilyniant i ddefnyddwyr gwasanaeth
- ymdrechion cydweithredol a chyfathrebu rhwng sefydliadau (iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol).

4.13 Ar ben hynny, un maes lle nad oes llawer o wybodaeth yn yr adroddiadau cryno yw darparu gwasanaethau dementia yn yr iaith Gymraeg, sydd unwaith eto'n fwch sylweddol ac ystyried y pwyslais parhaus ar Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg; a pha mor bwysig yw bod pobl sy'n siarad Cymraeg ac sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn gallu cael cymorth yn eu dewis iaith.

Cyfeiriadau

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) *Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan*. Gwelliant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru [Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan](#)

Llywodraeth Cymru (2018) *Cynllun Gweithredu Dementia*. [Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia](#) Llywodraeth Cymru

NICE (2018) *Dementia: assessment, management and support for people living with dementia and their carers*. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal [canllawiau NICE](#)

Opinion Research Services (2024) *Dementia Action Plan Evaluation: Interim Report*. Llywodraeth Cymru [Gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018 2022: Canfyddiadau interim](#)

Opinion Research Services (2025) [Canfyddiadau terfynol y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia \(2018 i 2022\)](#)